
Gorffennaf 2019

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Y Gronfa Gofal Integredig

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU



Paratowyd yr adroddiad hwn i'w gyflwyno i'r Cynulliad Cenedlaethol o dan Ddeddfau Llywodraeth Cymru 1998 a 2006, a Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Roedd tîm astudio Swyddfa Archwilio Cymru yn cynnwys Anne Beegan, Allison Rees, David Wilson, Fflur Jones, Matthew Brushett, Nathan Couch a Philippa Fido o dan gyfarwyddyd Matthew Mortlock.

**Swyddfa Archwilio Cymru**
**24 Heol y Gadeirlan**
**Caerdydd**
**CF11 9LJ**

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol o'r Cynulliad Cenedlaethol ac o lywodraeth. Mae'n archwilio ac yn ardystio cyfrifon Llywodraeth Cymru a'r cyrff cyhoeddus sy'n gysylltiedig â hi ac a noddir ganddi, gan gynnwys cyrff y GIG. Mae ganddo'r pŵer i gyflwyno adroddiadau i'r Cynulliad Cenedlaethol ar ddarbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y defnydd a wna'r sefydliadau hynny o'u hadnoddau wrth gyflawni eu swyddogaethau, a sut y gallent wella'r defnydd hwnnw.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, mae'n cynnal astudiaethau gwerth am arian mewn llywodraeth leol ac yn arolygu cydymffurfiaeth gydag anghenion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â'i waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sydd yn fwrdd statudol wedi'i sefydlu ar gyfer y nod hwnnw ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol.

© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2019

Cewch ailddefnyddio'r cyhoeddiad hwn (heb gynnwys y logos) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng. Os byddwch yn ei ailddefnyddio, rhaid i chi ei ailddefnyddio'n gywir ac nid mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint Archwilydd Cyffredinol Cymru a rhaid rhoi teitl y cyhoeddiad hwn. Lle nodwyd deunydd hawlfraint unrhyw drydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw cyn ei ailddefnyddio.

Am fwy o wybodaeth, neu os ydych angen unrhyw un o'n cyhoeddiadau mewn ffurf ac/neu iaith wahanol, cysylltwch â ni drwy ffonio 029 2032 0500 neu drwy e-bostio post@archwilio.cymru. Rydym yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Gallwch ysgrifennu atom hefyd, yn Gymraeg neu'n Saesneg, a byddwn yn ymateb yn yr iaith rydych chi wedi ei defnyddio. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

**This document is also available in English.**

# Cynnwys


Crynodeb 6

Argymhellion 14

1 Mae'r gronfa wedi helpu i ddod â sefydliadau ynghyd i gynllunio ac i ddarparu gwasanaethau 16

Mae partneriaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn bodoli ers peth amser ond nid oedd llawer o waith integredig yn digwydd cyn sefydlu'r gronfa 17

Mae'r gronfa wedi ysgogi partneriaid rhanbarthol i ddatblygu gwasanaethau integredig ac i symud at drefniadau ariannu ar y cyd yng nghyd-destun polisïau a deddfwriaeth ehangach 18

2 Mae agweddau ar y ffordd y cafodd arian ei ddyrannu gan Lywodraeth Cymru a'i ddefnyddio gan bartneriaid rhanbarthol wedi cyfyngu ar botensial y gronfa hyd yma 20

Mae disgwyliadau newidiol Llywodraeth Cymru, problemau o ran prydlondeb y prosesau dyrannu arian, a'r gorwelion byrdymor wedi llesteirio gwaith cyflawni rhanbarthol 21

Mae Llywodraeth Cymru yn mynd i'r afael â natur flynyddol y gronfa a bu iddi gyhoeddi canllawiau 2019-20 yn fwy prydlon 30

Gall y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol ei chael yn anodd taro cydbwysedd rhwng anghenion y boblogaeth leol a dyraniadau dangosol Llywodraeth Cymru ar gyfer grwpiau targed 32

Mae'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn defnyddio eu dyraniadau mewn ffyrdd gwahanol ac nid yw pob un o'r rhain wedi cefnogi ffocws rhanbarthol 33

3 Mae angen datblygu trefniadau llywodraethu'r gronfa ymhellach i gryfhau'r gwaith goruchwylio canolog ac i sicrhau mwy o gysondeb ar draws y rhanbarthau 37

Mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu trefniadau llywodraethu'r gronfa, ond mae angen iddi wneud mwy i ystyried sut y mae ei gweithredoedd hithau'n effeithio ar bartneriaid rhanbarthol ac i integreiddio ffrydiau ariannu 38

Mae capasiti staffio Llywodraeth Cymru i oruchwylio'r gronfa'n rheolaidd ac yn amserol wedi bod yn gyfyngedig 39

Yn aml, bydd y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn dirprwyo cyfrifoldeb dros y gronfa i is-grŵp ac nid yw'r byrddau iechyd a'r awdurdodau lleol yn craffu'n fanwl ar y modd y defnyddir y gronfa 40

Mae cadernid y gwaith o reoli prosiectau'n amrywio o ranbarth i ranbarth ac o sefydliad i sefydliad, ac ychydig ohonynt sy'n cynnwys defnyddwyr gwasanaethau o'r dechrau'n deg 42

4 Er bod enghreifftiau cadarnhaol, nid yw effaith gyffredinol y gronfa o ran gwella canlyniadau defnyddwyr gwasanaethau yn glir o hyd, ac ni cheir llawer o dystiolaeth bod prosiectau llwyddiannus yn cael eu prif-ffrydio hyd yma 44

Mae'r byrddau partneriaeth yn pennu amryw o astudiaethau achos cadarnhaol, ond nid yw trefniadau monitro canolog Llywodraeth Cymru yn gosod sylfaen i asesu effaith gyffredinol y gronfa hyd yma 45

Ni cheir llawer o dystiolaeth bod prosiectau llwyddiannus wedi'u prif-ffrydio a'u hariannu fel rhan o wasanaethau craidd y cyrff cyhoeddus hyd yma, ond mae Llywodraeth Cymru wedi ailbwysleisio ei disgwyliadau 48

Atodiadau 52

Atodiad 1 – Dulliau archwilio 53

Atodiad 2 – Map o’r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol fel yr oeddent ar 31 Mawrth 2019 55

Atodiad 3 – Dosbarthiad y gronfa rhwng 2014 a 2019 56

Atodiad 4 – Dadansoddiad o nifer a maint y prosiectau rhwng 2014 a 2019 57

Atodiad 5 – Prif ganfyddiadau ein harolygon ymhlith aelodau’r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol ac arweinwyr prosiectau 59

Atodiad 6 – Y cynnydd a wnaed o ran argymhelliad blaenorol 61

# Adroddiad cryno

## Crynodeb

1 Mae Llywodraeth Cymru'n dyrannu'r Gronfa Gofal Integredig (y gronfa) ledled Cymru. Nod y gronfa yw annog a galluogi gwasanaethau cymdeithasol, iechyd, tai, y trydydd sector a darparwyr annibynnol i weithio mewn ffordd integredig i ddatblygu gwasanaethau cynaliadwy.

2 Sefydlwyd y gronfa'n wreiddiol gan Lywodraeth Cymru am flwyddyn yn unig yn 2014-15 (fel y Gronfa Gofal Canolraddol[1]). Bryd hynny, roedd y gronfa'n canolbwyntio ar gynorthwyo pobl hŷn a helpu i atal derbyniadau diangen i'r ysbyty neu dderbyniadau amhriodol i ofal preswyl. Roedd hefyd yn canolbwyntio ar atal oedi wrth ryddhau cleifion o'r ysbyty a lleihau'r cyfraddau oedi wrth drosglwyddo gofal.

3 Ar ôl darparu rhywfaint o gyllid parhaus yn 2015-16, ehangodd Llywodraeth Cymru gwmpas y gronfa yn 2016-17 i gynnwys:

a plant ac oedolion ag anghenion cymhleth;

b plant ac oedolion ag anableddau dysgu; a'r

c Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig (Arddangosyn 2).


4 Yn 2017-18, ehangodd Llywodraeth Cymru gwmpas y gronfa eto i gynnwys gofalwyr (o bob oed) a System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru[2] (Arddangosyn 2).

5 Ers sefydlu'r gronfa, mae Llywodraeth Cymru wedi darparu cyfanswm o £270 miliwn hyd at fis Mawrth 2019. Ac eithrio 2015-16, gwnaed dyraniadau cyfalaf a refeniw bob blwyddyn (Arddangosyn 1). Mae Llywodraeth Cymru wedi cynyddu'r dyraniad cyfalaf i £35 miliwn yn 2019-20. Mae'r dyraniad refeniw wedi cynyddu i £80 miliwn, felly mae cyfanswm o £115 miliwn wedi'i ddyrannu i'r gronfa.

1 Yn 2017, newidiodd Llywodraeth Cymru enw'r gronfa i'r Gronfa Gofal Integredig i adlewyrchu'n well y nod o hybu gwaith integredig.

2 Fel rhan o'r rhaglen waith ehangach, rydym yn mynd ati i gynnal ymchwiliad ar wahân i'r camau i roi'r system ar waith.

Arddangosyn 1: cyfanswm yr arian a ddarparwyd rhwng Ebrill 2014 a Mawrth 2020




Nodyn: Mae arian refeniw'n cefnogi gwariant ar staff a threuliau gweinyddol. Mae arian cyfalaf yn cefnogi prynu a gwella asedau, gan gynnwys tir, adeiladau, cyfarpar a cherbydau.

Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o ganllawiau Llywodraeth Cymru.

6 Mae Llywodraeth Cymru'n dosbarthu'r gronfa ledled Cymru i'r saith bwrdd partneriaeth rhanbarthol[3] (y byrddau partneriaeth) ar sail egwyddorion ariannu amrywiol[4]. Mae'r byrddau partneriaeth yn cydffinio â'r saith bwrdd iechyd (Atodiad 2) ac maent yn gyfrifol am oruchwylio a rheoli'r modd y defnyddir y gronfa yn eu hardaloedd. Mae'r byrddau iechyd yn derbyn yr arian ac yn gweithredu fel banciwr ar ran y bwrdd partneriaeth perthnasol. Mae Atodiad 3 yn dangos sut y mae Llywodraeth Cymru wedi dyrannu'r gronfa fesul bwrdd partneriaeth o fis Ebrill 2014 i fis Mawrth 2019.

3 Sefydlwyd y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn 2016 gan **Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014**. Maent yn gyfrifol am sicrhau bod y sefydliadau sy'n bartneriaid iddynt yn cydweithio'n effeithiol i bennu anghenion poblogaeth y rhanbarth (asesiad o'r boblogaeth). Maent hefyd yn gyfrifol am baratoi a rheoli cynllun ardal i fynd i'r afael â'r anghenion hynny.

4 Mae Llywodraeth Cymru'n dyrannu'r arian ar draws gwahanol ffrydiau'r rhaglen. Cedwir peth ohono'n ganolog ar gyfer mentrau cenedlaethol. Dyrennir yr arian sy'n canolbwyntio ar bobl hŷn ar sail fformiwla 'Townsend' a ddefnyddir hefyd i ddyrannu adnoddau GIG Cymru i'r byrddau iechyd. Dyrennir yr arian sy'n canolbwyntio ar blant, ac oedolion ag anableddau, ar sail fformiwla presgripsiynu. Er ei fod yn grŵp sy'n flaenoriaeth, nid oes arian ar wahân ar gyfer gofalwyr.

7 Gall y gronfa gefnogi mentrau (neu brosiectau) newydd, yn ogystal ag estyn mentrau sy'n bodoli eisoes i ardal ehangach. Mae Llywodraeth Cymru'n bwriadu i fentrau llwyddiannus barhau, ond drwy eu prif-ffrydio i fusnes craidd y sefydliadau a'u cefnogi drwy ffrydiau ariannu eraill.

8 Rhaid i'r byrddau partneriaeth ddefnyddio'r gronfa yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru. Y byrddau partneriaeth sy'n cymeradwyo prosiectau refeniw. Yna, maent yn cyflwyno Cynllun Buddsoddi Refeniw blynyddol i Lywodraeth Cymru sy'n nodi sut y byddant yn defnyddio'r gronfa. Maent yn cyflwyno cynigion i ddefnyddio'r arian cyfalaf i Lywodraeth Cymru eu cymeradwyo. Rhaid iddynt ddangos sut y mae'r prosiectau arfaethedig yn cydweddu â deddfwriaeth/polisïau allweddol, gan gynnwys Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

9 Mae Arddangosyn 2 yn rhestru rhai enghreifftiau o'r prosiectau a ariannwyd. Mae Atodiad 4 yn rhoi mwy o wybodaeth am nifer a maint y prosiectau a gefnogwyd ledled Cymru rhwng mis Ebrill 2014 a mis Mawrth 2019.

Arddangosyn 2: enghreifftiau o'r prosiectau a ariannwyd


(Pobl Hŷn)

**Uned Ailalluogi 'Y Bae'** – (Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Caerdydd a'r Fro)

Uned â chwe gwely sy'n bont rhwng yr ysbyty a'r cartref yw 'Y Bae', a hynny ar gyfer pobl y mae angen iddynt dreulio mwy o amser mewn amgylchedd cefnogol i sicrhau eu bod mor annibynnol â phosibl.


(Pobl Hŷn)

**'Cadw'n Iach Gartref'** – (Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Cwm Taf)

Ystod o wasanaethau a ddatblygwyd i helpu i gadw pobl yn iach ac yn annibynnol yn eu cartrefi ac i atal derbyniadau i'r ysbyty yw 'Cadw'n Iach Gartref'. Mae'n cynnwys Gwasanaeth Asesu Integredig Cymunedol, Ward Cymunedol, Therapi Mewnwythiennol Cymunedol a Gwasanaeth Ailalluogi.


(Plant ag anghenion cymhleth)

**Gwasanaeth Cymorth Lleoliadau Aml-asiantaeth** – (Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Bae'r Gorllewin)

Mae'r gwasanaeth rhanbarthol hwn yn cynorthwyo plant sy'n derbyn gofal sy'n dioddef afiechyd meddwl a/neu emosiynol a/neu anawsterau ymddygiadol, neu blant sydd mewn perygl o'u dioddef, drwy ddarparu cymorth lleoli arbenigol.

(Plant ag anghenion cymhleth)

**Egwyl Fer –** (Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru)

Mae'r fenter hon wedi datblygu a gwella'r seibiannau byrion a ddarperir i blant anabl ag anghenion cymhleth a/neu anableddau dysgu. Mae'r fenter hon yn darparu seibiannau byrion amrywiol i ddiwallu anghenion plant, pobl ifanc a'u teuluoedd ar ôl asesiadau aml-asiantaeth.

---

(Anableddau Dysgu)

**Caffi Man Cwrdd** – (Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Cymru)

Caffi cyflogaeth â chymorth yw'r Caffi Man Cwrdd. Mae'n darparu profiad gwaith, hyfforddiant a chyfleoedd cyflogaeth ym maes arlwyo, bwyd a gwasanaeth cwsmeriaid i bobl ag anableddau dysgu yn Sir Benfro.

---

(Anableddau Dysgu)

**Dychwelyd Adref** – (Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Powys)

Mae'r prosiect Dychwelyd Adref yn cynorthwyo pobl ag anableddau dysgu i fyw bywydau ystyrlon a buddiol yn eu cymunedau eu hunain. Mae'r prosiect wedi cefnogi camau i ddatblygu prosesau asesu i gynorthwyo pobl i symud yn ôl i Bowys ac mae wedi mynd ati i adeiladu uned â chwe gwely yn y Trallwng.

---

(Gofalwyr)

**Helpu i fyw yn ogystal â gofalu** – (Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gwent Fwyaf)

I helpu i gefnogi bywyd ochr yn ochr â gofalu a seibiant, mae'r bartneriaeth wedi llunio Cynllun Grantiau Bach ar gyfer gofalwyr. Ei nod yw cynorthwyo gofalwyr â gwahanol agweddau ar eu rôl ofalu. Mae'r Ymddiriedolaeth Gofalwyr yn gweithredu'r cynllun ar ran y rhanbarth, ac mae'n agored ac yn hygyrch i bob gofalwyr dros 16 oed.

**Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig** – (pob Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol)



(GAI)

Mae'r Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig yn rhan o ymrwymiad Llywodraeth Cymru yn ei Chynllun Gweithredu diwygiedig ar gyfer Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig i wella'r gwasanaethau i unigolion awtistig, eu teuluoedd a'u gofalwyr. Cyflwynwyd y gwasanaeth ar draws y rhanbarthau dros gyfnod o dair blynedd rhwng 2016-17 a 2018-19 ac mae'n darparu asesiadau diagnostig, cymorth a chyngor i oedolion.

**System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru** – (pob Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol)



(SWGCC)

System gyfrifiadurol yw System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru i helpu gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol i gydweithio i ddarparu gofal yn nes at y cartref. Mae'r system yn cael ei chyflwyno ledled Cymru dros gyfnod o dair blynedd a ddechreuodd yn 2017-18.

Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o ffurflenni monitro'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru.

10 Ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru, rydym wedi pwyso a mesur a yw'r gronfa'n cael ei defnyddio i ddarparu gwasanaethau cynaliadwy sy'n cyflawni gwell canlyniadau i ddefnyddwyr gwasanaethau. Rydym wedi canolbwyntio ar ba un a yw Llywodraeth Cymru'n rheoli'r gronfa'n effeithiol i gyflawni ei hamcanion, ac ar ddod i wybod a yw'r byrddau partneriaeth yn dangos eu bod yn defnyddio'r gronfa'n effeithiol. Rydym hefyd wedi ystyried a yw'r prosiectau a gefnogir gan y gronfa'n gwneud gwahaniaeth amlwg ar lefel leol.

11 Mae Atodiad 1 yn amlinellu ein dulliau archwilio sy'n cynnwys arolwg ymhlith aelodau'r byrddau partneriaeth ac arweinwyr y prosiectau a gefnogwyd gan y gronfa. Mae Atodiad 5 yn rhoi mwy o fanylion am yr ymatebion i'n harolygon. Rhoddwyd adborth i bob bwrdd partneriaeth am y trefniadau rhanbarthol yn yr hydref 2018. Rhoddwyd adborth am ein canfyddiadau cychwynnol i Lywodraeth Cymru hefyd. Ym mhrif gorff yr adroddiad hwn, rydym yn nodi ymhle mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi mynd i'r afael â'r materion a bennwyd gennym.

12 Yn 2015, bu inni gyhoeddi adroddiad[5] am annibyniaeth pobl hŷn. Ynddo, gwnaethom argymhelliad i'r awdurdodau lleol, y cyrff iechyd, partneriaid y trydydd sector a Llywodraeth Cymru o ran y gronfa. Yn Atodiad 6, ceir asesiad o'r cynnydd a wnaed o ran yr argymhelliad hwnnw.

13 Yn gyffredinol, daethom i'r casgliad **bod y gronfa wedi cael effaith gadarnhaol drwy gefnogi gwaith partneriaeth gwell ac integreiddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn well. Fodd bynnag, mae agweddau ar y ffordd y cafodd y gronfa ei rheoli ar lefel genedlaethol, lefel ranbarthol a lefel prosiectau wedi cyfyngu ar ei photensial hyd yma. Ni cheir llawer o dystiolaeth bod prosiectau llwyddiannus yn cael eu prif-ffrydio a'u hariannu fel rhan o wasanaethau craidd y cyrff cyhoeddus hyd yma.**

14 **Mae'r gronfa wedi helpu i ddod â sefydliadau ynghyd i gynllunio ac i ddarparu gwasanaethau.** Mae partneriaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn bodoli ers peth amser, ond nid oedd llawer o waith integredig yn digwydd cyn sefydlu'r gronfa. Mae'r gronfa wedi ysgogi partneriaid i ddatblygu gwasanaethau integredig ac i symud at drefniadau ariannu ar y cyd yng nghyd-destun polisïau a deddfwriaeth ehangach. Mae'r adborth gan aelodau'r byrddau partneriaeth ac arweinwyr prosiectau yn dangos bod eu barn am hyn yn gadarnhaol ar y cyfan.

15 **Mae agweddau ar y ffordd y cafodd arian ei ddyrannu gan Lywodraeth Cymru a'i ddefnyddio gan y partneriaid rhanbarthol wedi cyfyngu ar botensial y gronfa hyd yma.** Mae'r ffaith bod cwmpas y gronfa wedi newid ac ehangu wedi creu heriau i'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol. Er bod Llywodraeth Cymru wedi ceisio darparu gwybodaeth yn gynnar, mae'r ffaith iddi fod yn hwyr yn cyhoeddi canllawiau ac yn rhoi gwybod am ddyraniadau yn y gorffennol wedi creu anawsterau o ran cynllunio rhanbarthol. Mae hyn, yn ei dro, wedi effeithio ar gymeradwyo ceisiadau cyfalaf ac ar ddyrannu'r cronfeydd ar ôl eu cymeradwyo. Mae natur flynyddol y gronfa yn ystod ei blynyddoedd cynnar hefyd wedi arwain at ddull byrdymor o weithredu, yn hytrach na hybu cynlluniau strategol ar gyfer newidiadau mwy hirdymor. Mae Llywodraeth Cymru'n mynd i'r afael â natur flynyddol y gronfa ac fe gyhoeddodd ganllawiau 2019-20 yn fwy prydlon.

5 Archwilydd Cyffredinol Cymru: **Helpu Pobl Hŷn i Fyw'n Annibynnol: A yw cynghorau'n gwneud digon?** Hydref 2015.

16 Gall y byrddau partneriaeth ei chael yn anodd taro cydbwysedd rhwng anghenion y boblogaeth leol a dyraniadau dangosol Llywodraeth Cymru ar gyfer grwpiau targed. Mae'r ffaith bod rhai o ffrydiau ariannu tymor byr eraill Llywodraeth Cymru'n canolbwyntio ar yr un grwpiau targed, ond gyda meini prawf gwahanol, hefyd yn ei gwneud yn anodd i'r byrddau partneriaeth ddefnyddio dull cyfun. Mae'r byrddau partneriaeth yn defnyddio eu dyraniadau mewn gwahanol ffyrdd, ac nid yw pob un o'r rhain wedi cefnogi ffocws rhanbarthol. Mae Llywodraeth Cymru wedi ailbwysleisio ei dyhead iddynt ddefnyddio dulliau rhanbarthol yng nghanllawiau 2019-20 ac fel rhan o'i gwaith i graffu ar y cynlluniau buddsoddi. Mae'r gwahaniaethau eraill yn cynnwys y dull o ariannu gwaith cydgysylltu canolog, rhan y trydydd sector, a'r dull o gytuno ar brosiectau, ac mae'r camau i rannu'r dulliau a ddefnyddir ledled Cymru ac i ddysgu ohonynt yn gyfyngedig.

17 **Mae angen datblygu trefniadau llywodraethu'r gronfa ymhellach i gryfhau'r gwaith goruchwylio canolog ac i sicrhau mwy o gysondeb ar draws y rhanbarthau.** Mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu trefniadau llywodraethu'r gronfa. Fodd bynnag, canfuwyd y gallai Llywodraeth Cymru wneud mwy, drwy ei bwrdd prosiect, ac yn gyffredinol, i ystyried sut y mae ei gweithredoedd hithau'n effeithio ar y partneriaid rhanbarthol ac i integreiddio ffrydiau ariannu. Bu capasiti staffio Llywodraeth Cymru i oruchwylio'r gronfa'n rheolaidd ac yn amserol yn gyfyngedig hefyd. Mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi gwneud rhai newidiadau i fynd i'r afael â'r materion hyn.

18 Ar lefel ranbarthol, mae'r byrddau partneriaeth yn aml yn dirprwyo'r cyfrifoldeb dros y gronfa i un o'u his-grwpiau. Mae gan bob un o'r byrddau partneriaeth femorandwm cyd-ddealltwriaeth sy'n nodi'r broses benderfynu y cytunwyd arni. Fodd bynnag, mae ein gwaith wedi dangos nad yw'r byrddau iechyd na'r awdurdodau lleol yn craffu'n fanwl ar benderfyniadau'r byrddau partneriaeth, a bod diffyg ymwybyddiaeth cyffredinol ar draws y sefydliadau hynny o'r ffordd y defnyddir y gronfa. Ar lefel prosiectau, mae cadernid y gwaith o'u rheoli'n amrywio o ranbarth i ranbarth ac o sefydliad i sefydliad, ac ychydig ohonynt sy'n cynnwys defnyddwyr gwasanaethau o'r dechrau'n deg.

19 **Ceir enghreifftiau cadarnhaol, ond nid yw effaith gyffredinol y gronfa o ran gwella canlyniadau defnyddwyr gwasanaethau'n glir o hyd, ac ni cheir llawer o dystiolaeth bod prosiectau llwyddiannus yn cael eu prif-ffrydio hyd yma.** Mae'r byrddau partneriaeth yn pennu amryw o astudiaethau achos cadarnhaol ond nid yw trefniadau monitro canolog Llywodraeth Cymru yn gosod sylfaen i asesu effaith gyffredinol y gronfa hyd yma. Mae'r byrddau partneriaeth yn monitro prosiectau bob chwarter, ond mae'r wybodaeth a gesglir wedi tueddu i ganolbwyntio ar allbynnau'r cyllid yn hytrach na chanlyniadau'r defnyddwyr. Mae Llywodraeth Cymru a'r byrddau partneriaeth yn cydnabod bod angen cryfhau'r broses o adrodd am ganlyniadau, ac mae Llywodraeth Cymru'n bwriadu comisiynu gwaith gwerthuso ehangach ar ôl iddi benderfynu gohirio gwerthusiad a gyhoeddwyd yn flaenorol oherwydd ein cynlluniau i ymgymryd â'n gwaith ni. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn bwriadu cyhoeddi adroddiad blynyddol erbyn mis Medi 2019 am y ffordd y defnyddiwyd y gronfa yn 2018-19.

20 Ni cheir llawer o dystiolaeth bod prosiectau llwyddiannus wedi'u prif-ffrydio a'u hariannu fel rhan o wasanaethau craidd y cyrff cyhoeddus. Mae'r byrddau partneriaeth wedi'i chael yn anodd darbwyllo'r sefydliadau sy'n bartneriaid i fuddsoddi mewn prosiectau, ac nid yw'r ffaith nad yw prosiectau'n cael eu gwerthuso, na'r cyd-destun lle ceir pwysau ariannol ehangach, wedi helpu'r sefyllfa. Mae Llywodraeth Cymru'n cydnabod yr heriau y mae'r byrddau partneriaeth yn eu hwynebu o ran prif-ffrydio, ond nid yw wedi darparu unrhyw ganllawiau manwl o'r blaen. Mae canllawiau 2019-20 bellach yn nodi'n glir bod disgwyl i'r cynlluniau buddsoddi refeniw gynnwys strategaethau ymadael ar gyfer pob prosiect. Fodd bynnag, byddai'n ddefnyddiol darparu cymorth ymarferol pellach, gan adeiladu ar y digwyddiad dysgu ar y cyd a gynhelir bob blwyddyn.

# Argymhellion

21 Bwriedir i'n hargymhellion gynorthwyo Llywodraeth Cymru a'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol i wella'r trefniadau i reoli'r gronfa. Fodd bynnag, gallant hefyd fod yn berthnasol i ffrydiau ariannu eraill Llywodraeth Cymru, fel Cronfa Trawsnewid y GIG[6]. Rydym hefyd yn credu bod ein hargymhellion yn adroddiad 2015 am annibyniaeth pobl hŷn yn dal i fod yn berthnasol (Atodiad 6). Yn ein hadborth i'r byrddau partneriaeth am y trefniadau rhanbarthol, pennwyd meysydd i'w gwella sy'n berthnasol i ranbarthau unigol er mwyn mynd i'r afael â materion lleol.

**Argymhellion**

**Canllawiau a phenderfyniadau prydlon**

A1 Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru:

- gadw llygad i weld a yw cyhoeddi ei chanllawiau'n gynharach wedi lliniaru'r problemau sydd wedi codi mewn blynyddoedd blaenorol o ran prydlondeb penderfyniadau ynghylch ariannu prosiectau; ac
- ystyried a all wneud unrhyw welliannau eraill i'r broses.

**Cronfeydd tymor byr lluosog ar gyfer iechyd, gofal cymdeithasol a thai**

A2 Gan adeiladu ar waith mapio blaenorol, rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru adolygu'r holl ffrydiau ariannu tymor byr sydd ar gael ar gyfer partneriaid iechyd, gofal cymdeithasol a thai, ynghyd â'r meini prawf perthnasol, a lle bo'n ymarferol, dylai gyflwyno newidiadau priodol er mwyn:

- lleihau dyblygu;
- sicrhau bod amcanion y ffrydiau ariannu'n cydweddu â'i gilydd a bod y dyraniadau cyfun ar gyfer grwpiau penodol o bobl yn cydweddu ag anghenion y boblogaeth leol, yn ogystal â meysydd blaenoriaeth Llywodraeth Cymru; a
- sicrhau bod y sefydliadau rhanbarthol sy'n bartneriaid, lle bo'n berthnasol drwy'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, yn gallu mynd ati i ddefnyddio'r ffrydiau ariannu sydd ar gael iddynt ar y cyd.

6 Rhaid defnyddio Cronfa Trawsnewid GIG 2018-20 a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru i gyflawni'r ymrwymiadau a wnaed yn **Cymru Iachach: ein Cynllun Iechyd a Gofal Cymdeithasol**, Mehefin 2018.

**Argymhellion**

**Trefniadau y bwrdd prosiect**

A3 Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru gryfhau trefniadau llywodraethu'r gronfa ymhellach drwy adolygu aelodaeth y bwrdd prosiect i gynnwys cynrychiolaeth o'r tu allan i'r adrannau sy'n ymwneud yn uniongyrchol â'r gronfa, a hynny i roi rhywfaint o her annibynnol.

**Trefniadau craffu'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol**

A4 Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru gydweithio â chyrff y GIG a'r awdurdodau lleol i sicrhau bod trefniadau priodol ar waith i graffu ar y penderfyniadau y mae'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn eu gwneud ar ran y cyrff hynny.

**Monitro prosiectau**

A5 Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru gydweithio â'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol er mwyn:

- cytuno ar y mesurau canlyniadau allweddol y disgwylir iddynt gael eu bodloni, a'u monitro, ar gyfer y gwahanol grwpiau targed sy'n cael arian o'r gronfa. Lle bo modd, dylai'r mesurau hyn gydweddu â'r mesurau canlyniadau ehangach a bennir yn y fframweithiau canlyniadau cenedlaethol sydd eisoes ar waith;
- egluro sut y caiff yr wybodaeth a gesglir ei defnyddio'n ganolog; a
- symleiddio gofynion adrodd prosiectau refeniw a phrosiectau cyfalaf lle bo'n ymarferol gwneud hynny.

**Dysgu ar y cyd a phrif-ffrydio prosiectau**

A6 Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru roi mwy o gefnogaeth ar gyfer cyfleoedd i ddysgu ar y cyd ar draws y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, gan ganolbwyntio'n benodol ar:

- ddulliau o reoli'r gronfa yng nghyd-destun y dulliau amrywiol a nodir yn yr adroddiad hwn; a
- goresgyn yr heriau rhag prif-ffrydio prosiectau llwyddiannus.

Rhan 1

# Mae’r gronfa wedi helpu i ddod â sefydliadau ynghyd i gynllunio ac i ddarparu gwasanaethau



# Mae partneriaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn bodoli ers peth amser ond nid oedd llawer o waith integredig yn digwydd cyn sefydlu'r gronfa

1.1 Mae fforymau partneriaeth iechyd a gofal cymdeithasol yn bodoli ers peth amser. Yn 2003, gofynnodd Llywodraeth Cymru i gyrff cyhoeddus allweddol gydweithio i lunio strategaeth iechyd, gofal cymdeithasol a llesiant ar gyfer eu hardal[7], gan nodi sut y byddent yn diwallu anghenion eu poblogaethau lleol. I hybu'r agenda hon, sefydlodd y cyrff cyhoeddus fforymau partneriaeth (neu grwpiau llywio) ar draws y gwahanol ardaloedd. Fe'u sefydlwyd ar ôl troed y 22 awdurdod lleol, gan gydweithio â'r 13 ymddiriedolaeth GIG a'r 22 bwrdd iechyd lleol oedd yn bodoli ar y pryd. Ar ôl ad-drefnu'r GIG yn 2009, dechreuodd y fforymau partneriaeth iechyd a gofal cymdeithasol integredig uno, gan greu saith fforwm partneriaeth. Gosododd y rhain sylfaen ar gyfer y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol sy'n bodoli heddiw.

1.2 Nid oedd i'r fforymau partneriaeth blaenorol unrhyw sail statudol. Yr unig beth yr oedd yn rhaid i'r cyrff partneriaeth ei wneud oedd paratoi strategaeth iechyd, gofal cymdeithasol a llesiant leol. Bu'r partneriaethau'n pwyso a mesur y posibilrwydd o gronni arian i ddatblygu gwasanaethau integredig i'w helpu i roi eu strategaethau lleol ar waith. Fodd bynnag, dim ond llond dwrn o gytundebau Adran 33[8] neu swyddi neu wasanaethau wedi'u hariannu ar y cyd oedd yn bodoli cyn cyflwyno'r gronfa yn 2014. Parodrwydd y cyrff cyhoeddus allweddol i ryddhau arian ar gyfer trefniadau ar y cyd oedd un o'r prif rwystrau.

7 Llywodraeth Cynulliad Cymru, **Strategaethau Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Llesiant, Canllawiau Polisi**, Chwefror 2003.

8 Mae Adran 33 o **Ddeddf Gwasanaeth Iechyd Gwladol 2006** yn caniatáu i gyrff y GIG ac awdurdodau lleol ymrwymo i gytundebau. Gall hyn gynnwys sefydlu a chynnal cronfa sy'n cynnwys cyfraniadau gan un neu ragor o gyrff y GIG, ac un neu ragor o awdurdodau lleol, a hynny i ddarparu gwasanaeth neu i gyflawni swyddogaeth.

## Mae'r gronfa wedi ysgogi partneriaid rhanbarthol i ddatblygu gwasanaethau integredig ac i symud at drefniadau ariannu ar y cyd yng nghyd-destun polisïau a deddfwriaeth ehangach

1.3 Pan gyflwynwyd y gronfa yn 2014, roedd yn gyfle newydd i'r fforymau partneriaeth ddatblygu gwasanaethau integredig a dechrau meithrin parodrwydd cyrff cyhoeddus i ymrwymo i gydweithio, sef un o brif nodau'r gronfa pan gafodd ei sefydlu. Yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, roedd yn ofynnol sefydlu Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol erbyn mis Ebrill 2016, gan bwysleisio'r angen i'r partneriaethau integreiddio mwy o wasanaethau. Yn unol â'r Ddeddf honno, roedd hefyd yn ofynnol i'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol sefydlu cronfeydd cyfun erbyn mis Ebrill 2016. Mae'r rhain bellach ar waith ar draws y saith bwrdd partneriaeth ac maent yn canolbwyntio ar feysydd fel Gwasanaethau Integredig Cymorth i Deuluoedd a Gwasanaethau Cyfarpar Cymunedol. Mae cronfeydd cyfun hefyd ar waith ers mis Ebrill 2018 i gomisiynu darpariaeth cartrefi gofal i oedolion.


1.4 Yn ystod ein gwaith, pwysleisiodd swyddogion Llywodraeth Cymru fod y trefniadau partneriaeth wedi aeddfedu o ganlyniad i'r gronfa a bod hyn wedi gosod sylfaen gadarn i roi trefniadau ariannu cyfun ar waith. Adleisiwyd hyn yn y Cynllun Iechyd a Gofal Cymdeithasol, **Cymru Iachach**, a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2018. Mae'r cynllun yn cyfeirio'n gadarnhaol at y ffordd y mae partneriaethau ac, yn fwy penodol y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, wedi creu modelau gofal integredig gan ddefnyddio'r gronfa.

1.5 Mae nifer o'r prosiectau a ariannwyd wedi cael cymorth o ffynonellau ariannu eraill hefyd, gan ddangos ymrwymiad y sefydliadau sy'n bartneriaid i sicrhau bod prosiectau'n llwyddo, ond nid yw enghreifftiau o'r fath yn gyffredin. Mae hyn wedi cynnwys cyllid craidd neu arian a ddarparwyd i sefydliadau unigol drwy ddyraniadau refeniw eraill Llywodraeth Cymru fel arian 'pwysau'r gaeaf' y GIG.

1.6 Pwysleisiodd y rheini y bu inni gwrdd â nhw ar lefel ranbarthol ac ar lefel prosiectau fod y gronfa wedi eu hysgogi i wella partneriaethau a gwaith ar y cyd. Dywedodd llawer o unigolion fod mwy o ymrwymiad i waith partneriaeth ers creu'r gronfa. Yn bwysig, bu iddynt ddweud hefyd fod mwy o ffocws ar wella canlyniadau defnyddwyr gwasanaethau.


1.7 Fel rhan o'n harolygon ymhlith aelodau'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol ac arweinwyr prosiectau, gofynnwyd cwestiwn am effaith y gronfa ar waith partneriaeth. Roedd yr ymatebion a ddaeth i law ynghylch yr effaith yr oedd y gronfa wedi'i chael o ran cryfhau gwaith partneriaeth yn cadarnhau bod y farn yn gadarnhaol ar y cyfan (Arddangosion 3 a 4).

Arddangosyn 3: canran y bobl a holwyd a oedd yn cytuno neu'n cytuno'n gryf fod y Gronfa Gofal Integredig yn helpu i annog partneriaid allweddol i weithio mewn ffordd integredig.




Ffynhonnell: Arolwg Swyddfa Archwilio Cymru ymhlith aelodau'r byrddau partneriaeth ac arweinwyr prosiectau.

Arddangosyn 4: sylwadau rhai o'r rheini a atebodd ein harolwg




Ffynhonnell: Arolwg Swyddfa Archwilio Cymru ymhlith aelodau'r byrddau partneriaeth ac arweinwyr prosiectau.

Rhan 2

# Mae agweddau ar y ffordd y cafodd arian ei ddyrannu gan Lywodraeth Cymru a'i ddefnyddio gan bartneriaid rhanbarthol wedi cyfyngu ar botensial y gronfa hyd yma



# Mae disgwyliadau newidiol Llywodraeth Cymru, problemau o ran prydlondeb y prosesau dyrannu arian, a’r gorwelion byrdymor wedi llesteirio gwaith cyflawni rhanbarthol

## Gan fod cwmpas y gronfa wedi newid ac ehangu, mae wedi creu heriau i’r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol

2.1 Mae Llywodraeth Cymru’n cyhoeddi canllawiau blynyddol ar gyfer elfennau refeniw a chyfalaf y gronfa. Ers cyflwyno’r gronfa yn 2014-15, mae’r meini prawf y mae angen i’r partneriaid rhanbarthol eu bodloni wedi newid bob blwyddyn. Mae Llywodraeth Cymru wedi pwysleisio wrthym fod rhai o’r newidiadau hyn yn seiliedig ar adborth gan sefydliadau sy’n bartneriaid ac iddynt gael eu hategu gan gynnydd yng nghyfanswm y cyllid.

2.2 Pan gyflwynwyd y gronfa yn 2014-15, roedd yn canolbwyntio ar gynorthwyo pobl hŷn, yn enwedig pobl eiddil oedrannus, am flwyddyn. Roedd Llywodraeth Cymru’n bwriadu iddi gael ei defnyddio i greu gwasanaethau newydd, arloesol ac integredig a fyddai’n helpu i atal derbyniadau diangen i’r ysbyty neu dderbyniadau amhriodol i ofal preswyl. Roedd hefyd yn canolbwyntio ar atal oedi wrth ryddhau cleifion o’r ysbyty a lleihau’r cyfraddau oedi wrth drosglwyddo gofal. Yn sgil adborth cadarnhaol gan y partneriaid rhanbarthol, cytunodd Llywodraeth Cymru i barhau i ddarparu arian refeniw yn 2015-16. Roedd yn bwriadu i’r arian gael ei ddefnyddio i ddatblygu’r prosiectau hynny a oedd yn cysylltu gofal y GIG tu allan i’r ysbyty[9] a gofal cymdeithasol yn effeithiol. Tua diwedd 2015-16, cadarnhaodd Llywodraeth Cymru y byddai’r gronfa ar gael ar gyfer prosiectau newydd ym mlwyddyn ariannol 2016-17.

9 Darperir y gofal hwn tu allan i’r ysbytai mawr, a hynny fel arfer gan wasanaethau sylfaenol a chymunedol fel meddygon teulu a nyrsys ardal.

2.3 Yn ystod 2016-17, ymrwymodd Llywodraeth Cymru i ddarparu'r gronfa bob blwyddyn tan 2021. Ehangwyd ei ffocws i ddarparu cymorth i grwpiau penodol eraill yn y boblogaeth: plant ag anghenion cymhleth, a phlant ac oedolion ag anableddau dysgu. Cadwodd Llywodraeth Cymru hefyd ran o'r gronfa i gefnogi camau i ddatblygu ac i weithredu'r Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig a oruchwylir drwy drefniadau cenedlaethol. Roedd angen i'r prosiectau refeniw yn y grwpiau poblogaeth newydd hefyd ganolbwyntio ar ailalluogi[10], gan leihau gofal hirdymor a'r ddibyniaeth ar wasanaethau tu allan i Gymru. Newidiodd ffocws y cronfeydd cyfalaf hefyd o addasiadau tai ar raddfa fach er mwyn cefnogi byw'n annibynnol i addasiadau mwy o faint a phrosiectau i ddatblygu cynlluniau ailalluogi a chamu i lawr[11]. Darparodd Llywodraeth Cymru gronfa ar wahân ar gyfer yr addasiadau tai a gefnogwyd yn flaenorol drwy'r gronfa hon[12].

2.4 Yn 2017-18, ailenwyd y Gronfa Gofal Canolraddol yn Gronfa Gofal Integredig. Roedd yr enw newydd yn adlewyrchu ffocws a chwmpas ehangach y gronfa fel modd o gynorthwyo'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol i roi Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ar waith. Symudodd y ffocws ar bobl hŷn at y rheini ag anghenion hirdymor neu gymhleth, gan gynnwys dementia. Ehangwyd y gronfa hefyd i gynnwys gofalwyr, gan gynnwys gofalwyr ifanc. Cadwodd Llywodraeth Cymru ran o'r gronfa i gefnogi'r broses o gyflwyno System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru.

2.5 Yn 2019-20, ehangwyd y gronfa i gynnwys plant sydd mewn perygl o dderbyn gofal, plant sy'n derbyn gofal neu blant sydd wedi'u mabwysiadu. Mae Llywodraeth Cymru wedi dyrannu £15 miliwn o arian ychwanegol ar gyfer y grŵp hwn fel rhan o gynnydd cyffredinol o £30 miliwn i'r arian refeniw (Arddangosyn 1). Mae Arddangosyn 5 yn dangos y grwpiau blaenoriaeth a gafodd arian o'r gronfa rhwng 2014-15 a 2019-20.

10 Diffinnir ailalluogi fel gofal tymor byr a ddarperir yn y cartref, fel rheol, i gynorthwyo unigolion i wella ar ôl cyfnod yn yr ysbyty.

11 Mae cynlluniau camu i lawr yn darparu cymorth dwysedd isel i gleifion sy'n feddygol iach ac nad oes angen iddynt gael gofal ar ward ysbyty acíwt mwyach, ond nad ydynt yn gallu mynd adref eto. Fel arfer, mae'r cynlluniau'n darparu gofal tymor byr mewn ysbytai cymunedol neu gartrefi gofal.

12 O fis Ebrill 2016, darparodd Llywodraeth Cymru £4 miliwn ar gyfer cynllun addasiadau uwch, 'Hwyluso - Cymorth i Fyw'n Annibynnol'. Ym mis Chwefror 2018, cyhoeddodd Archwilydd Cyffredinol Cymru adroddiad am Addasiadau Tai.

Arddangosyn 5: grwpiau blaenoriaeth a phrosiectau a gafodd arian o'r gronfa rhwng 2014-15 a 2019-20

**2014-15**
**2015-16**

- Pobl hŷn ag anghenion cymhleth

**2016-17**

- Pobl hŷn ag anghenion cymhleth
- Plant ac oedolion ag anableddau dysgu
- Plant ag anghenion cymhleth
- Gwasanaeth awtistiaeth integredig

**2017-18**
**2018-19**

- Pobl hŷn ag anghenion cymhleth
- Gwasanaeth awtistiaeth integredig
- Plant ag anghenion cymhleth
- System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru
- Plant ac oedolion ag anableddau dysgu
- Gofalwyr

**2019-20**

- Pobl hŷn ag anghenion cymhleth
- Gwasanaeth awtistiaeth integredig
- Plant ag anghenion cymhleth
- System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru
- Plant ac oedolion ag anableddau dysgu
- Gofalwyr
- Plant sydd mewn perygl o dderbyn gofal, mewn gofal ac wedi'u mabwysiadu

Nodyn: mae cyfanswm gwerth y gronfa – refeniw a chyfalaf – wedi cynyddu o £50 miliwn yn 2014-15 i £115 miliwn yn 2019-20 (Arddangosyn 1).

Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o ganllawiau Llywodraeth Cymru.


2.6 Mae'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol wedi croesawu'r newidiadau i'r gronfa a'r grwpiau poblogaeth ychwanegol. Fodd bynnag, bu inni nodi bod y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol wedi teimlo, dros gyfnod, bod meini prawf y gronfa'n datblygu i fod yn rhy rhagnodol. Dywedodd y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol eu bod yn ei chael yn anodd pennu a chymeradwyo prosiectau refeniw sy'n dal i fodloni'r ystod o feini prawf, yn enwedig ar gyfer grwpiau poblogaeth a gynorthwyir ers peth amser.

2.7 Mae newidiadau i ofynion adrodd Llywodraeth Cymru ar gyfer y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol wedi bod yn her hefyd. Yn sgil y newidiadau, bu'n rhaid i bartneriaid rhanbarthol newid eu trefniadau adrodd ar gyfer prosiectau sydd wedi para mwy na blwyddyn. Maent hefyd wedi cyfyngu ar y gallu i gymharu'r prosiectau hyn o flwyddyn i flwyddyn.

## Er bod Llywodraeth Cymru wedi ceisio darparu gwybodaeth yn gynnar, mae'r ffaith iddi fod yn hwyr yn cyhoeddi canllawiau ac yn rhoi gwybod am ddyraniadau yn y gorffennol wedi creu anawsterau o ran cynllunio rhanbarthol

2.8 Cyfeiriwyd yn gyson at brydlondeb canllawiau refeniw a chyfalaf Llywodraeth Cymru, a'r dyraniadau dilynol, fel mater a oedd yn effeithio ar allu'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol i ddefnyddio ac i reoli'r gronfa'n effeithiol. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei chanllawiau ar gyfer 2014-15 ym mis Ionawr 2014. Fodd bynnag, ni chafodd canllawiau 2015-16 i 2018-19 eu cyhoeddi tan ddechrau'r flwyddyn ariannol berthnasol, neu rai misoedd ar ôl iddi gychwyn (Arddangosyn 6). Effeithiodd hyn ar brydlondeb cyflwyno cynlluniau'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, y prosesau cymeradwyo, a'r broses o ryddhau arian. Ac eithrio 2014-15, ni chytunwyd ar gyllid cyfalaf tan drydydd chwarter neu, mewn un achos, bedwerydd chwarter y flwyddyn ariannol, a hynny er bod rhaid i'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol wario'r arian erbyn diwedd y flwyddyn ariannol. Mae Llywodraeth Cymru wedi mynd ati i gyhoeddi canllawiau 2019-20 yn fwy prydlon (paragraffau 2.24 i 2.29).

## Arddangosyn 6: amserlen cyhoeddi canllawiau a dyraniadau, a chymeradwyo arian, 2014-15 i 2018-19




- Cyhoeddi dyraniadau a chanllawiau blynyddol – Refeniw
- Cyhoeddi dyraniadau a chanllawiau blynyddol – Cyfalaf
- Dyddiad cau cynlluniau buddsoddi refeniw
- Dyddiad cau ceisiadau cyfalaf
- Dyddiad cymeradwyo Llywodraeth Cymru ar gyfer Ceisiadau cyfalaf[3]

Nodiadau:

1. Yn 2015-16, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru lythyr yn hytrach na chanllawiau ffurfiol. Gwnaeth hyn oherwydd bod y gronfa'n cael ei defnyddio i estyn prosiectau llwyddiannus am flwyddyn arall neu i estyn prosiectau arfer da ar draws Cymru. Y cyfan yr oedd rhaid i'r arweinwyr rhanbarthol ei wneud oedd hysbysu Llywodraeth Cymru os oedd eu rhaglen wedi newid yn sylweddol. Nid oedd unrhyw arian cyfalaf ar gael yn 2015-16.
2. Yn 2016-17, cadwodd Llywodraeth Cymru £15 miliwn o'r gronfa refeniw yn ôl, gan roi gwybod i'r byrddau partneriaeth y byddai gweddill y gronfa'n cael ei defnyddio i gefnogi gwasanaethau ataliol ar draws y gwahanol grwpiau poblogaeth. Yna, dosbarthwyd cyfanswm o £13 miliwn i'r rhanbarthau ym mis Medi 2016, ac fe gadwodd Llywodraeth Cymru y £2 filiwn oedd yn weddill.
3. Nid yw Llywodraeth Cymru'n cymeradwyo'r ceisiadau refeniw. Y byrddau partneriaeth sy'n gwneud hyn. Yn hytrach, mae Llywodraeth Cymru'n ei bodloni ei hun fod y cynlluniau buddsoddi refeniw a baratoir gan y byrddau partneriaeth yn bodloni meini prawf y gronfa ac yn gwneud defnydd llwyr o'r dyraniadau sydd ar gael.
4. Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi nad oedd modd iddi gyhoeddi canllawiau ar y cyd ar gyfer 2018-19 oherwydd amseriad adolygiad mewnol o raglen gyfalaf y Gronfa Gofal Integredig a arweiniodd at gyflwyno dyraniad cyfalaf tair blynedd (paragraff 2.24).

Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o ganllawiau, dyraniadau a llythyrau cadarnhau Llywodraeth Cymru.

2.9 Cyn cyhoeddi canllawiau ffurfiol, mae Llywodraeth Cymru'n rhoi amcan cynnar ar lafar i'r arweinwyr rhanbarthol o'r dyraniadau disgwyliedig ac unrhyw newidiadau arfaethedig o ran defnyddio'r gronfa er mwyn iddynt ddechrau cynllunio. Fodd bynnag, dywedodd y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol wrthym iddynt fod yn gyndyn o gynllunio eu defnydd o'r gronfa ar raddfa fawr cyn cael hysbysiadau ffurfiol gan fod y disgwyliadau wedi bod yn newid hyd yma. Cafodd rhai Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol hefyd amcan cynnar o'u cyllid, ond fe'i newidiwyd yn ddiweddarach.

2.10 Mae rhai Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol wedi cyflwyno cylch cynllunio cynharach ar sail eu dyraniadau dangosol. Serch hynny, mae'r ansicrwydd hwn a'r problemau amseru wedi effeithio ar barodrwydd y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol a'u gallu i gynllunio rhaglen waith flynyddol sy'n gwneud y defnydd gorau o'u dyraniad blynyddol. Mae Llywodraeth Cymru wedi ceisio mynd i'r afael â'r ansicrwydd o ran y grwpiau poblogaeth drwy nodi yng nghanllawiau 2017-18 y bydd y meysydd blaenoriaeth yn aros yr un fath dros y tair blynedd nesaf. Fodd bynnag, mae'r meysydd blaenoriaeth wedi newid gan fod y gronfa wedi'i hestyn yn 2019-20 i gynnwys plant sydd mewn perygl o dderbyn gofal, sydd mewn gofal neu sydd wedi'u mabwysiadu.

2.11 Yn 2018-19, darparodd Llywodraeth Cymru hefyd gronfa ar wahân yn benodol ar gyfer dementia a weinyddwyd drwy broses a chanllawiau'r Gronfa Gofal Integredig. Roedd y gronfa ar wahân i gefnogi Cynllun Gweithredu Cymru ar gyfer Dementia 2018-2022 yn cyfrif am £5 miliwn ychwanegol a ddarparwyd i'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol. Er bod y canllawiau blynyddol yn cyfeirio at y gronfa, nid oedd canllawiau manwl ar gael ynghylch defnyddio'r arian dementia tan fis Medi 2018. Roedd y canllawiau hynny'n dangos nad oedd modd trosglwyddo'r prosiectau dementia a gefnogwyd eisoes drwy'r gronfa i ddefnyddio'r arian dementia newydd. Pe baent wedi gwybod am y cyfyngiadau hyn, dywedodd llawer o'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol y byddent wedi oedi cyn cyflwyno prosiectau dementia fel rhan o'u cynlluniau buddsoddi refeniw cyffredinol a chanolbwyntio yn lle hynny ar brosiectau ar gyfer grwpiau eraill ag anghenion cymhleth.

2.12 Mae canllawiau'r gronfa'n dal i annog prosiectau sy'n cyfuno arian refeniw a chyfalaf[13]. Fodd bynnag, hyd yn oed pan gyhoeddwyd y canllawiau a'r dyraniadau yr un pryd, mae'r ffaith bod gofyn i Lywodraeth Cymru gymeradwyo ceisiadau cyfalaf wedi creu bwlch sylweddol rhwng llinell amser y ddwy ffrwd ariannu. Oherwydd y materion hyn, collwyd cyfleoedd i wneud y defnydd mwyaf strategol o'r cynllun, ac ychydig iawn o'r prosiectau sy'n defnyddio'r ddwy ffrwd.

13 Mae canllawiau 2018-19 yn dweud y gellir defnyddio'r gronfa drwy wario arian refeniw i gefnogi prosiectau cyfalaf, er enghraifft, drwy staffio adeilad newydd.

## Nid yw natur flynyddol y gronfa yn ystod ei blynyddoedd cynnar wedi hybu cynllunio strategol na defnydd effeithiol o'r gronfa

2.13 Mae Llywodraeth Cymru wedi dweud yn glir bod rhaid defnyddio'r arian a ddyrannwyd erbyn diwedd y flwyddyn ariannol y mae'n berthnasol iddi. Mae llawer o'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol wedi mynegi eu rhwystredigaeth â natur flynyddol, tymor byr y gronfa, gan ddweud bod hyn wedi peri iddynt gynllunio a chyflawni ar sail tymor byr a chyfyngu ar eu gallu i gynllunio'n fwy strategol dros gyfnod hirach. Yn ymarferol, mae hyn wedi arwain at gynnig llawer o brosiectau ar y sail bod modd eu cychwyn a'u cwblhau'n gyflym, yn hytrach na phrosiectau a allai gael mwy o effaith dros gyfnod hirach.

2.14 Yn ei chanllawiau blynyddol, mae Llywodraeth Cymru wedi datgan yn glir y dylid defnyddio'r gronfa i ysgogi prosiectau newydd ac arloesol, gan gynnwys ailfodelu neu uwchraddio prosiectau a ariannwyd o'r blaen. Fodd bynnag, mae hefyd wedi dweud yn ei chanllawiau y dylai prosiectau fod yn gynaliadwy tu hwnt i flwyddyn yr arian, gyda disgwyliad na ddylai prosiectau bara mwy na blwyddyn.

2.15 Gan fod y dyraniadau a'r canllawiau wedi'u cyhoeddi'n hwyr fel y nodir ym mharagraffau 2.8 i 2.10, nid yw'r partneriaid rhanbarthol yn aml wedi gallu sefydlu prosiectau'n brydlon a chaniatáu iddynt weithredu am ddigon o amser i ddangos eu heffaith. O'r herwydd, dros y cyfnod ers cyflwyno'r gronfa, caniatawyd, yn ymarferol, i lawer o brosiectau gael eu dwyn ymlaen i'r flwyddyn ariannol nesaf.

2.16 Hyd yn oed o benderfynu dwyn prosiectau ymlaen, gall fod rhaid atal ac ailgychwyn prosiectau gan fod angen ailgyflwyno prosiectau arfaethedig ac aros am gadarnhad bod cyllid ar gael. Bu modd i gyrff cyhoeddus oresgyn yr her hon drwy ganiatáu i rai prosiectau fwrw ymlaen neu gychwyn 'ar sail risg' tra maent yn aros i gael eu cymeradwyo ac i'r arian gael ei ryddhau. Yn gyffredinol, nid oes gan gyrff y trydydd sector ddigon o adnoddau i barhau i gynnal prosiectau 'ar sail risg' tra maent yn aros i'r cyllid gael ei gadarnhau.

2.17 Hyd yn oed ar ôl eu cymeradwyo, gall nifer o faterion ymarferol beri oedi cyn cychwyn prosiectau o fewn blwyddyn, gan gynnwys:

a **recriwtio:** gall y prosesau hyn gymryd cryn amser, tri neu bedwar mis yn aml, ac mae rhai sefydliadau'n gyndyn o gychwyn prosesau recriwtio hyd nes i Lywodraeth Cymru ryddhau'r arian.


b **gallu a sgiliau:** mae sefydliadau arweiniol prosiectau'n ei chael yn anodd denu ymgeiswyr addas ar gyfer swyddi sy'n para am gyfnod penodol o flwyddyn, ac yn aml gall fod angen iddynt hysbysebu swydd sawl gwaith cyn penodi ymgeisydd llwyddiannus. Mae hefyd yn anodd cadw staff oherwydd natur fyrhoedlog yr arian. Mae hyn yn peri i staff prosiect newid yn aml o flwyddyn i flwyddyn.

c **caffael:** rhaid i lawer o brosiectau cyfalaf gwblhau prosesau caffael sy'n gallu cymryd cryn amser.

2.18 Oherwydd bod oedi'n rhan annatod o'r broses ariannu, nid yw llawer o brosiectau refeniw'n cychwyn neu'n ailgychwyn tan ail neu drydydd chwarter y flwyddyn ariannol. Mae proffil y gwariant yn ystod y flwyddyn yn adlewyrchu hyn, gyda chyfran sylweddol o'r gronfa refeniw'n cael ei gwario yn ystod chwarter olaf y flwyddyn.

2.19 Mae Arddangosyn 7 yn dangos proffil gwariant refeniw a chyfalaf 2016-17 a 2017-18. Mae proffil y gwariant cyfalaf wedi bod yn sylweddol waeth na phroffil y gwariant refeniw, a hynny i raddau helaeth oherwydd bod ceisiadau cyfalaf blynyddoedd ariannol 2016-17 a 2017-18 wedi'u cymeradwyo'n hwyr.

Arddangosyn 7: canran y gronfa refeniw a chyfalaf a wariwyd fesul chwarter yn 2016-17 a 2017-18




Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o ffurflenni monitro'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru.

2.20 Mae'r oedi cyn cychwyn prosiectau wedi arwain at danwariant ar ddiwedd y flwyddyn. Mae canllawiau Llywodraeth Cymru'n nodi'n glir na ellir trosglwyddo arian i'r flwyddyn ariannol nesaf. Yn hytrach, gall y byrddau iechyd gadw unrhyw arian refeniw sydd dros ben ar ddiwedd y flwyddyn, er na fwriedir mai hon yw'r sefyllfa ddiofyn. Ym mlynyddoedd cynnar y gronfa, rydym yn gwybod bod rhai byrddau iechyd wedi cadw symiau o arian dros ben yr oedd modd iddynt eu defnyddio tuag at eu sefyllfa elw a cholled a bod hyn wedi creu tensiwn rhyngddynt a'r partneriaethau ar y pryd.

2.21 Ers hynny, mae'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol wedi datblygu dulliau amrywiol o reoli tanwariant. Mae'r broses fwyaf datblygedig ar waith yn y Gorllewin lle cedwir rhestr wrth gefn o brosiectau y gellir eu cefnogi os oes arian dros ben. Mewn ardaloedd eraill, defnyddiwyd y gronfa ar gyfer prosiectau tymor byr y gellir eu cychwyn a'u cwblhau'n gyflym. Rydym hefyd yn gwybod bod Llywodraeth Cymru wedi cytuno, yn 2017-18, y câi rhanbarth Cwm Taf ddwyn swm bach o arian ymlaen i'w ddefnyddio yn 2018-19.

2.22 Mae rheoli tanwariant yn effeithiol yn dal i fod yn broblem mewn rhai ardaloedd. Fodd bynnag, dylai hyn ddechrau gwella yn 2019-20 ar ôl i Lywodraeth Cymru ofyn i'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol amlinellu eu prosesau i leihau tanwariant yn eu cynlluniau buddsoddi refeniw.

2.23 Mae tanwariant wedi bod yn fwy o broblem o ran y cronfeydd cyfalaf. Oherwydd yr oedi cyn derbyn arian, ynghyd â'r amser y gall ei gymryd i gynnal prosesau caffael, ni chafodd llawer o'r gronfa gyfalaf ei wario yn ôl y bwriad. Yn hytrach, defnyddiwyd yr arian ar gyfer gwariant untro i brynu cyfarpar neu fe'i dychwelwyd i Lywodraeth Cymru ar ddiwedd y flwyddyn.

## Mae Llywodraeth Cymru yn mynd i'r afael â natur flynyddol y gronfa a bu iddi gyhoeddi canllawiau 2019-20 yn fwy prydlon

2.24 O ran 2018-19, darparodd Llywodraeth Cymru ddyraniad tair blynedd ar gyfer elfen gyfalaf y gronfa ac fe gyflwynodd newidiadau i rannu'r ffrwd yn ddwy ran:

a 25% o'r cyfanswm i'w ddefnyddio ar gyfer prosiectau cyfalaf bach sy'n para blwyddyn, gyda'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn penderfynu sut i'w ddefnyddio; a

b 75% o'r cyfanswm i'w ddefnyddio ar gyfer prosiectau trawsnewidiol hirdymor hyd at 2021 i'w cymeradwyo gan banel Llywodraeth Cymru.

2.25 Roedd aelodau'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol ledled Cymru'n teimlo bod hwn yn newid calonogol, ac mae rhai ohonynt wedi dechrau paratoi cynlluniau cyfalaf rhanbarthol tair blynedd i sicrhau eu bod yn gwneud y defnydd gorau o'r gronfa. Fodd bynnag, ym mis Tachwedd 2018, roedd prosiectau cyfalaf rhai o'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn dal i fod heb eu cymeradwyo.

2.26 Er iddi ddweud y byddai modd i'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol benderfynu sut i wario 25% o'r gronfa cyfalaf, bu Llywodraeth Cymru yn ystyried y cynigion hyn drwy ei phanel cyfalaf cyn bod modd iddynt gychwyn. O'r herwydd, nid oedd modd rhoi nifer o brosiectau ar waith yn ystod 2018-19 oherwydd nad oedd digon o amser yn weddill ac fe'u hailgyflwynwyd yn 2019-20. Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i'r broses hon fod wedi gwella yn 2019-20.

2.27 Ar ôl iddi ystyried ein hadborth cychwynnol, aeth Llywodraeth Cymru ati i ddarparu dyraniadau refeniw dangosol cynnar ar gyfer 2019-20 ym mis Rhagfyr 2018 ac i gyhoeddi canllawiau 2019-20 ym mis Chwefror 2019 ar gyfer y ffrydiau refeniw a chyfalaf. Yn ogystal â lleddfu'r problemau o ran prydlondeb, mae hyn hefyd wedi helpu i sicrhau cysondeb o ran y negeseuon llafar ac ysgrifenedig sydd wedi peri dryswch o ran y dyraniadau yn y gorffennol.

2.28 Yn 2019-20, mae Llywodraeth Cymru wedi cydnabod bod angen i'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol allu cynllunio sut i ddefnyddio'r arian refeniw ar sail fwy hirdymor hefyd. Mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn i'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol amlinellu'r hyn y maent yn bwriadu ei wneud dros gyfnod o ddwy flynedd. O ran canllawiau 2019-20, ceir mwy o gyfeiriadau at Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ynddynt, ond rydym yn cydnabod bod nod cyffredinol y gronfa eisoes yn cydweddu'n agos â'r pum ffordd o weithio[14] a nodir yn y Ddeddf.


2.29 O gyhoeddi'r canllawiau ar gyfer yr arian refeniw a chyfalaf yn gynharach, bydd yn helpu i fynd i'r afael â llawer o'r problemau a fynegwyd gan aelodau'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am arian refeniw a chyfalaf yn craffu ar gyllid 2019-20 ar y cyd. Mae Llywodraeth Cymru'n disgwyl y bydd prosiectau'n cael eu cymeradwyo'n gynharach yn ystod y flwyddyn ariannol, ac erbyn diwedd mis Gorffennaf 2019 fan bellaf. Fodd bynnag, mae'r gallu i gymeradwyo prosiectau'n brydlon yn dibynnu ar pa bryd y mae'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn cyflwyno eu cynlluniau buddsoddi cyfalaf ac mae hyn wedi cymryd yn hirach nag yr oedd Llywodraeth Cymru yn ei ddisgwyl.

14 Mae **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015** yn nodi'r pum ffordd o weithio y mae angen i gyrff cyhoeddus eu defnyddio i gyflawni saith nod llesiant y Ddeddf. Hirdymor, integreiddio, cynnwys, cydweithio ac atal yw'r pum ffordd o weithio.

## Gall y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol ei chael yn anodd taro cydbwysedd rhwng anghenion y boblogaeth leol a dyraniadau dangosol Llywodraeth Cymru ar gyfer grwpiau targed

2.30 Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn rhoi dyletswydd ar y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol i gynnal asesiad o'r boblogaeth i bennu anghenion pobl y rhanbarth ac i baratoi cynllun ardal i fynd i'r afael â'r anghenion a bennwyd. Ers 2017-18, mae canllawiau Llywodraeth Cymru yn dweud bod rhaid i bob prosiect a gynorthwyir gan y gronfa roi sylw i'r anghenion gofal a chymorth a bennir mewn asesiadau lleol a chynlluniau ardal. Mae Arddangosyn 8 yn dangos sut y bu i Lywodraeth Cymru ddyrannu arian refeniw 2018-19.

Arddangosyn 8: cyfran arian refeniw 2018-19 a ddyrannwyd i wahanol grwpiau poblogaeth




Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o ganllawiau Llywodraeth Cymru.

2.31 Dywedodd rhai o aelodau'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol fod y dull hwn o ddyrannu symiau penodol o'r gronfa'n creu tensiwn o ran taro cydbwysedd rhwng defnyddio'r gronfa ar gyfer y grwpiau targed penodedig a'r anghenion a bennir yn eu hasesiadau poblogaeth. Mae'r tensiwn hwn yn dwysáu ymhellach pan ystyrir ffrydiau ariannu eraill Llywodraeth Cymru y mae'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn gyfrifol amdanynt sydd hefyd wedi'u clustnodi ar gyfer grwpiau penodol o bobl. Un enghraifft yw cyllid y Cynllun Gweithredu ar gyfer Dementia a amlinellir ym mharagraff 2.11.


2.32 Gan fod ffrydiau ariannu Llywodraeth Cymru hefyd yn defnyddio meini prawf gwahanol, mae'n anodd i'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol ddefnyddio'r cronfeydd sydd ar gael iddynt ar y cyd i ddiwallu anghenion y boblogaeth leol. Yn hytrach, rhaid iddynt gyflwyno a chefnogi prosiectau ar wahân ar gyfer pob cronfa. O'r herwydd, mae llawer o'r partneriaid rhanbarthol yn teimlo y gall fod perygl fod swm anghymesur o arian yn cael ei ddyrannu ar gyfer grwpiau poblogaeth penodol. Maent yn teimlo bod hyn yn cyfyngu ar eu gallu i flaenoriaethu arian ar sail angen. Er enghraifft, wrth ymateb i'n harolwg, dywedodd rhai o aelodau'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol wrthym:

- 'mae'r ffordd y mae'r gronfa wedi'i strwythuro'n golygu y gall fod yn anodd paru'r arian â'r hyn y mae angen inni ei wneud ar gyfer ein poblogaeth leol'; a
- 'gall yr arfer o glustnodi fod yn rhwystr oherwydd gall beri i'r bartneriaeth ymrwymo'n ormodol i faes nad yw'n flaenoriaeth fawr'.

## Mae'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn defnyddio eu dyraniadau mewn ffyrdd gwahanol ac nid yw pob un o'r rhain wedi cefnogi ffocws rhanbarthol

2.33 Er bod Llywodraeth Cymru'n dyrannu'r gronfa ar sail ranbarthol, mater i bob bwrdd partneriaeth yw cytuno, drwy ei gynllun buddsoddi refeniw, sut i ddefnyddio'r gronfa. Mae'r ffordd y mae'r gronfa'n cael ei defnyddio'n amrywio o ranbarth i ranbarth, ac mae'r camau i rannu'r dulliau a ddefnyddir ledled Cymru ac i ddysgu ohonynt yn gyfyngedig (Arddangosyn 9).

Arddangosyn 9: dulliau o ddyrannu'r arian rhwng 2014 a 2018 ar draws y byrddau partneriaeth




Nodiadau:

1. Yn y Gogledd, dyrennir y rhan fwyaf o'r gronfa ar draws ardaloedd llai o faint, fel Ynys Môn a Gwynedd, Conwy a Sir Ddinbych, a Sir y Fflint a Wrecsam.
2. Cyn 2017-18, roedd Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Powys yn brigdorri elfen o'r gronfa i gefnogi costau cyfathrebu ac ymgysylltu.
3. Yn y Gorllewin, dyrennir y rhan fwyaf o'r gronfa i ardaloedd y tri awdurdod lleol, ond cedwir cyfran fach o'r arian ar lefel ranbarthol i gefnogi'r gwaith o gyflawni prosiectau rhanbarthol y cytunwyd arnynt.

Ffynhonnell: Gwaith maes Swyddfa Archwilio Cymru.

2.34 Mae pump o'r saith bwrdd partneriaeth yn ceisio dyrannu'r arian ar sail ranbarthol, ac eithrio'r Gogledd a'r Gorllewin. Mae'r ddau fwrdd hyn yn dyrannu'r arian i lefel is, naill ai i lefel awdurdod lleol unigol neu ar draws mwy nag un awdurdod lleol ond nid y rhanbarth cyfan. Mae hyn yn gwanhau'r ffocws arfaethedig ar gyflawni rhanbarthol ac mae wedi creu rhai tensiynau rhwng ardaloedd o ran tegwch y dyraniadau o fewn y rhanbarth. Dangosodd ein harolwg ymhlith aelodau'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol fod y farn o'r Gorllewin a'r Gogledd yn llai positif o ran a yw'r broses a ddefnyddir i ddyrannu'r gronfa'n deg. Mae Llywodraeth Cymru wedi ailbwysleisio ei dyhead iddynt ddefnyddio dulliau rhanbarthol yng nghanllawiau 2019-20 ac fel rhan o'i gwaith i graffu ar gynlluniau buddsoddi. Er bod y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn defnyddio eu dyraniadau mewn gwahanol ffyrdd, mae Llywodraeth Cymru wedi nodi eu bod yn gwneud defnydd cynyddol o ddulliau rhanbarthol, ond bod angen gwneud mwy o gynnydd mewn rhai ardaloedd.

2.35 Mae pedwar bwrdd partneriaeth wedi defnyddio rhywfaint o'r gronfa'n gyson i gefnogi'r gwaith o reoli, goruchwylio a chydgysylltu'r gronfa ar lefel ranbarthol. Mae'r symiau a gafodd eu 'brigdorri' yn ystod 2018-19 yn amrywio o £60,000 (1%) yn rhanbarth Gwent i £400,000 (8%) yn rhanbarth y Gorllewin. Yn aml, defnyddir y swm a frigdorrir i gyfrannu tuag at ariannu swydd benodol ac, yn y Gorllewin, fe'i defnyddir i reoli rhaglen o flaenoriaethau a bennwyd gan y bwrdd partneriaeth. Er bod hon yn gallu bod yn ffordd dda o ddefnyddio'r gronfa ar lefel leol, mae'n lleihau'r swm a fyddai ar gael, fel arall, ar gyfer prosiectau. Mae pob bwrdd partneriaeth arall wedi ariannu'r gwaith cydgysylltu drwy ffrwd ariannu wahanol neu drwy gyllid craidd.

2.36 Mae'r rhan fwyaf o'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn ariannu nifer fawr o brosiectau cymedrol eu cost. Po fwyaf o brosiectau sydd ar gael, po fwyaf yw'r gofynion goruchwylio a chydgysylltu. Mae Atodiad 4 yn nodi maint a nifer y prosiectau fesul rhanbarth ers 2014, ac mae'n dangos bod Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol Cwm Taf a Chaerdydd a'r Fro wedi canolbwyntio ar ariannu llai o brosiectau mwy o faint a bod bwrdd partneriaeth y Gogledd wedi ariannu mwy o brosiectau llai o faint.

2.37 Mae pedwar o'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol wedi mabwysiadu 'dull comisiynu' i ddatblygu rhaglen waith y gronfa. I bob pwrpas, mae'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn comisiynu eu his-grwpiau sy'n gyfrifol am grwpiau poblogaeth amrywiol i bennu gwaith yn y cynlluniau ardal a fyddai'n elwa o gael arian, a hynny er mwyn cefnogi'r gwaith o gyflawni blaenoriaethau lleol. Mae'r dull comisiynu'n helpu i baru'r defnydd o'r gronfa â blaenoriaethau'r cynlluniau ardal, yn hytrach na gwahodd cynigion i ddefnyddio'r gronfa drwy wahoddiad agored a allai fod yn llai trefnus. Fodd bynnag, cafwyd rhai pryderon am gynrychiolaeth ar yr is-grwpiau hyn ac, o ganlyniad, am allu rhai partneriaid i ddylanwadu ar y broses benderfynu (paragraff 3.16).

2.38 Pan fydd cynigion yn dod i law, mae sawl bwrdd partneriaeth yn defnyddio dull sgorio strwythuredig i asesu pa gynigion y mae'r bwrdd am fwrw ymlaen â nhw a'u cynnwys yn ei gynllun buddsoddi refeniw neu ei gynllun cyfalaf. Mae'r dulliau sgorio hyn yn amrywio ychydig ond maent yn canolbwyntio i raddau helaeth ar y graddau y mae'r prosiectau'n bodloni gofynion y gronfa ac yn cydweddu â'r blaenoriaethau rhanbarthol a'r cynllun ardal. Mae'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol eraill yn defnyddio dull llai haearnaidd, gan ystyried yn bennaf a yw'r prosiectau'n bodloni meini prawf y gronfa.

2.39 Un o brif nodau'r gronfa yw hybu cydweithio rhwng cyrff statudol a sefydliadau'r trydydd sector. Cyfeiriodd cynrychiolwyr y trydydd sector a fu'n siarad â ni at ystod o heriau sydd wedi effeithio ar eu gallu i gael gafael ar arian o'r gronfa. I fynd i'r afael â hyn, mae rhai Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol wedi clustnodi rhywfaint o arian o'r gronfa i'r trydydd sector ei ddefnyddio, a hynny'n bennaf drwy ddefnyddio dull tebyg i grantiau. Mae hyn wedi gwella mynediad y trydydd sector at y gronfa, yn enwedig ar gyfer prosiectau bach, tymor byr. Serch hynny, mae'r trydydd sector yn dal i fod wedi'i ddatgysylltu o'r rhaglen ehangach lle gallai wneud cyfraniadau yr un mor ddilys at rai o'r prosiectau mwy.

Rhan 3

# Mae angen datblygu trefniadau llywodraethu'r gronfa ymhellach i gryfhau'r gwaith goruchwylio canolog ac i sicrhau mwy o gysondeb ar draws y rhanbarthau



## Mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu trefniadau llywodraethu'r gronfa, ond mae angen iddi wneud mwy i ystyried sut y mae ei gweithredoedd hithau'n effeithio ar bartneriaid rhanbarthol ac i integreiddio ffrydiau ariannu

3.1 Mae cyllideb y gronfa'n dod o ddwy ran o Lywodraeth Cymru ac, i'r perwyl hwnnw, mae'r cyfrifoldeb dros oruchwylio'n cael ei rannu:

- y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol sy'n ysgwyddo'r cyfrifoldeb polisi a llywodraethu o ran y ffrwd refeniw; a'r
- Dirprwy Weinidog Tai a Llywodraeth Leol sy'n ysgwyddo'r cyfrifoldeb dros elfen gyfalaf y gronfa.

3.2 Mae Llywodraeth Cymru'n goruchwylio'r camau i ddatblygu'r gronfa a'i rhoi ar waith drwy fwrdd prosiect ffurfiol. Cynrychiolwyr o adrannau gwasanaethau cymdeithasol, iechyd, tai ac adfywio Llywodraeth Cymru yw aelodau'r bwrdd. Mae'r bwrdd prosiect yn cwrdd bob chwarter er mwyn:

a adolygu cynnydd;

b monitro perfformiad, canlyniadau a gwariant pob bwrdd partneriaeth;

c lle bo'n briodol, egluro rheolaeth weinyddol y gronfa a cheisio cytuno arni;

ch sicrhau bod materion sy'n dod i'r amlwg yn cael eu pennu ac yn cael sylw prydlon a rhagweithiol; a

d phennu cyfeiriad strategol y gronfa ar gyfer y dyfodol.

3.3 Er bod swyddogion yn teimlo bod yr arfer o weithio ar draws portffolios wedi gwella drwy'r trefniant hwn, roeddent yn cydnabod bod cadernid ac ansawdd y drafodaeth yn dioddef pan fydd unigolion allweddol yn absennol o gyfarfodydd y bwrdd prosiect. Dangosodd ein harsylwadau ni o fwrdd y prosiect fod cyfleoedd i roi mwy o her fewnol i'r newidiadau a wneir i'r gronfa a'r effaith y gallai'r rhain ei chael ar y partneriaid rhanbarthol. Er enghraifft, nid oedd yn ymddangos bod fawr ddim cydnabyddiaeth o effaith materion fel pa bryd y cyhoeddir canllawiau (paragraffau 2.8 i 2.10).

3.4 Ers ein gwaith maes, cafodd aelod staff ei secondio i Lywodraeth Cymru o fwrdd partneriaeth Powys i helpu i reoli'r gronfa. Mae hyn wedi sicrhau bod y bwrdd prosiect yn cael cipolwg gwerthfawr ar waith y byrddau partneriaeth ac mae Llywodraeth Cymru eisoes yn deall yn well effaith ei phrosesau a'i phenderfyniadau ar y partneriaid rhanbarthol.

3.5 Bu inni hefyd nodi nad yw'r wybodaeth a gyflwynir ar ffurflenni chwarterol y byrddau partneriaeth yn cael ei herio'n ddigonol. Er bod y bwrdd prosiect yn cael diweddariadau sy'n seiliedig ar yr wybodaeth a gyflwynir gan y byrddau partneriaeth, bu inni sylwi nad yw'r adroddiadau hyn yn cael eu trafod yn helaeth.

3.6 Gallai'r gronfa orgyffwrdd â chronfeydd eraill Llywodraeth Cymru, fel y Gronfa Gofal Sylfaenol. Fodd bynnag, roedd ychydig o dystiolaeth bod y bwrdd prosiect yn ystyried y gorgyffwrdd hwn ac yn sicrhau bod y meini prawf yn cydweddu â'r ffrydiau ariannu eraill. Mae rhai byrddau partneriaeth wedi dechrau ystyried sut y gallant ddefnyddio'r ffrydiau ariannu hyn gyda'i gilydd yn fwy effeithiol er budd eu poblogaethau, ond nid yw'n ofynnol iddynt wneud hynny ar hyn o bryd.

3.7 Ers hynny, mae'r bwrdd prosiect wedi cydnabod bod y gronfa'n gorgyffwrdd â Chronfa Trawsnewid y GIG a lansiwyd yn 2018. Mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud rhywfaint i nodi'r cysylltiadau hyn yng nghanllawiau 2019-20. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi creu cysylltiadau â ffrydiau ariannu perthnasol eraill drwy newid aelodaeth y bwrdd prosiect a thrwy waith arall sydd ar y gweill i fapio'r dirwedd ariannu ehangach. Yn y cyfamser, mae grŵp cyfeirio newydd yn ystyried cydgysylltu'r polisïau a'r arian sy'n berthnasol i'r byrddau partneriaeth. Yn ogystal, cafodd y gwersi a ddysgwyd gan raglenni Teuluoedd yn Gyntaf a Dechrau'n Deg eu hystyried ar ôl cyflwyno 'plant sydd mewn perygl o dderbyn gofal' fel grŵp blaenoriaeth yn 2019-20.

## Mae capasiti staffio Llywodraeth Cymru i oruchwylio'r gronfa'n rheolaidd ac yn amserol wedi bod yn gyfyngedig

3.8 Llywodraeth Cymru sy'n goruchwylio'r gronfa o ddydd i ddydd, a hynny drwy dîm rheoli bach sy'n cynnwys tri aelod staff. Mae'r tîm yn gyfrifol am gyfathrebu ag arweinwyr rhanbarthol, paratoi canllawiau blynyddol, ac adolygu perfformiad y gronfa a'r camau i'w rhoi ar waith ar draws y saith bwrdd partneriaeth.

3.9 Dywedodd y byrddau partneriaeth fod perthynas gadarnhaol rhyngddynt a'r tîm o ran elfennau refeniw a chyfalaf y gronfa, a'u bod yn croesawu'r cyfle i ymgysylltu drwy i'r tîm ddod i gyfarfodydd y byrddau, drwy ddeialog un i un, a thrwy gyfarfodydd â chadeiryddion y byrddau partneriaeth. Fodd bynnag, ni chafodd arweinwyr rhanbarthol y gronfa gyfle o'r blaen i ddod ynghyd yn rheolaidd i gwrdd â'r tîm canolog. Ers ein gwaith maes, sefydlwyd grŵp rhwydwaith arweiniol sy'n cefnogi deialog dwyffordd amlach rhwng y tîm a'r rheini sy'n gyfrifol am reoli'r gronfa ym mhob un o'r rhanbarthau.

3.10 Mae'r byrddau partneriaeth wedi nodi rhwystredigaeth â swm yr wybodaeth y mae angen iddynt ei ddarparu bob chwarter i fodloni gofynion adrodd Llywodraeth Cymru. Mae Llywodraeth Cymru'n tybio bod y gofynion wedi bod yn gymesur â lefel yr arian a fuddsoddir drwy'r gronfa. Fodd bynnag, oherwydd problemau capasiti yn y tîm canolog, cafwyd oedi o hyd at dri neu bedwar mis ar ôl cyflwyno'r ffurflenni adrodd cyn i'r byrddau partneriaeth gael adborth ffurfiol gan Lywodraeth Cymru am y meysydd i'w gwella.

3.11 Mae'r byrddau partneriaeth hefyd wedi mynegi rhwystredigaeth oherwydd nad yw llawer o'r wybodaeth fonitro'n cael ei defnyddio at unrhyw ddiben amlwg. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru wedi cydnabod nad oedd gan y tîm ddigon o gapasiti i graffu ar bob prosiect mewn manylder nac i ddilyn trywydd yr holl wybodaeth hon, er enghraifft, drwy gynnal ymweliadau safle i ddod i ddeall y gwaith yn well. Fodd bynnag, mae wedi pwysleisio bod yr wybodaeth yn cael ei defnyddio i gefnogi atebolrwydd Llywodraeth Cymru ei hun, er enghraifft, wrth ateb cwestiynau Gweinidogion, ac nid dim ond yn sylfaen i'w hadborth. Mae hefyd wedi cynnal ymweliadau achlysurol ar lefel ranbarthol ac ymweld â rhai prosiectau.

3.12 Mae'r aelod staff a secondiwyd o fwrdd partneriaeth Powys (paragraff 3.4) wedi helpu i ddarparu rhywfaint o adnodd ychwanegol ers diwedd 2018, gan ddisodli swydd a fu'n wag am gyfnod hir. Mae gwaith hefyd yn mynd rhagddo i ailedrych ar swm yr wybodaeth y gofynnir amdani drwy'r trefniadau adrodd. Mae paragraffau 4.1 i 4.11 yn trafod y trefniadau mewn mwy o fanylder.

## Yn aml, bydd y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn dirprwyo cyfrifoldeb dros y gronfa i is-grŵp ac nid yw'r byrddau iechyd a'r awdurdodau lleol yn craffu'n fanwl ar y modd y defnyddir y gronfa

3.13 Yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, roedd yn ofynnol sefydlu'r byrddau partneriaeth ar ôl troed y byrddau iechyd ac iddynt gynnwys cynrychiolwyr o'r gwasanaethau cymdeithasol, aelodau cabinet, cynrychiolwyr o'r byrddau iechyd gan gynnwys aelodau, sefydliadau'r trydydd sector, a chynrychiolwyr defnyddwyr a gofalwyr. Ceir cynrychiolwyr o'r cyrff statudol ar bob bwrdd partneriaeth, ond gall lefel presenoldeb cynrychiolwyr y byrddau iechyd amrywio o un i dri. Fel rheol, arweinwyr partneriaethau ac arweinwyr gofal sylfaenol ar lefel cyfarwyddwr neu reolwr, yn ogystal ag aelodau annibynnol, sy'n cynrychioli'r byrddau iechyd.

3.14 Gall aelodaeth yr awdurdodau lleol hefyd amrywio hyd at dri aelod o bob awdurdod. Mae hyn yn creu byrddau partneriaeth mawr mewn ardaloedd lle ceir pump neu chwech awdurdod, ac mae perygl y gall cynrychiolwyr yr awdurdodau lleol ddominyddu'r drafodaeth. Fel rheol, cyfarwyddwyr y gwasanaethau cymdeithasol ac aelodau cabinet sy'n cynrychioli'r awdurdodau lleol, er i Lywodraeth Cymru ddiwygio'r Ddeddf yn 2018 i beri iddi fod yn ofynnol i'r byrddau partneriaeth gynnwys cynrychiolaeth o'r maes tai[15]. Cyn diwygio'r Ddeddf, roedd cynrychiolaeth o'r maes tai'n amrywio ar draws y byrddau partneriaeth. Ceir cynrychiolaeth o'r trydydd sector ar y byrddau partneriaeth, ond gall fod yn anodd cael cynrychiolaeth o blith defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr.

3.15 Mae'r byrddau partneriaeth yn gyfrifol am roi eu cynlluniau ardal ar waith ac am ddefnyddio'r arian a ddarperir iddynt. I wneud hyn, rhaid iddynt benderfynu sut i ddefnyddio'r gronfa ar draws y rhanbarth ar ran y cyrff cyhoeddus a gynrychiolir ganddynt. Mae gan bob un o'r byrddau partneriaeth femorandwm cyd-ddealltwriaeth sy'n nodi'r broses benderfynu y cytunwyd arni. Fodd bynnag, mae ein gwaith ni wedi dangos mai ychydig iawn o waith a wneir i graffu ar benderfyniadau'r byrddau partneriaeth. Er bod rhai aelodau o'r byrddau partneriaeth yn gofyn am gymeradwyaeth gan eu sefydliadau cartref, nid yw'r arfer hwn yn gyffredin ar draws rhan helaeth o Gymru. Canfuwyd hefyd nad oes fawr ddim tystiolaeth bod y cynrychiolwyr yn adrodd yn ôl fel mater o drefn i fyrddau a phwyllgorau craffu'r cyrff cyhoeddus perthnasol am benderfyniadau'r byrddau partneriaeth, ac roedd diffyg ymwybyddiaeth cyffredinol ymhlith y byrddau iechyd a'r awdurdodau lleol o'r modd y defnyddir y gronfa.

3.16 Yn y byrddau partneriaeth, dirprwyir y cyfrifoldeb dros y gronfa i raddau helaeth i is-grwpiau. Mae'r is-grwpiau'n argymell i'r byrddau partneriaeth sut y dylid defnyddio'r gronfa ac yn rhoi adroddiadau sicrwydd iddynt yn ystod y flwyddyn ynghylch y ffordd y mae'r arian yn cael ei wario. Gan mwyaf, cyfarwyddwyr neu benaethiaid gwasanaethau sy'n aelodau o'r is-grwpiau, ac yn aml nid oes gan bartneriaid eraill fel y trydydd sector, tai a gofalwyr gynrychiolaeth ddigonol. Mynegodd cynrychiolwyr y trydydd sector yn enwedig bryderon nad oes ganddynt bob amser gynrychiolaeth ar yr is-grwpiau, er eu bod yn aelodau o'r byrddau partneriaeth. Mae hyn yn cyfyngu ar eu gallu i ymgysylltu ac i ddylanwadu ar benderfyniadau ynghylch y gronfa. Mewn rhai byrddau partneriaeth, tynnwyd sylw at wrthdaro buddiannau posibl gan fod aelodau o'r is-grwpiau sy'n argymell sut i ddyrannu'r gronfa'n rheoli'r gwasanaethau sydd hefyd yn elwa o'r gronfa.

15 Roedd y diwygiad i'r Ddeddf hefyd yn cynnwys cynrychiolaeth o'r cymdeithasau tai.

3.17 Gall amseriad cyfarfodydd y byrddau partneriaeth hefyd fod yn broblem. Yn ei chanllawiau blynyddol, mae Llywodraeth Cymru'n pennu dyddiadau cau sy'n glir ond yn aml yn dynn ar gyfer cyflwyno cynlluniau buddsoddi refeniw, cynlluniau cyfalaf a ffurflenni monitro chwarterol. Canfuwyd bod rhai o gadeiryddion y byrddau partneriaeth yn cymeradwyo'r ffurflenni monitro tu allan i gyfarfodydd y bwrdd oherwydd bod yr amserlen rhwng diwedd y chwarter a'r dyddiad cyflwyno'n dynn. Nid oedd rhai cadeiryddion yn gysurus i wneud hyn ac roeddent yn gwrthod cymeradwyo'r ffurflenni hyd nes i'r bwrdd eu hystyried. O'r herwydd, bu'n rhaid aildrefnu dyddiadau rhai o gyfarfodydd y byrddau partneriaeth er mwyn iddynt fodloni amserlenni Llywodraeth Cymru.

## Mae cadernid y gwaith o reoli prosiectau'n amrywio o ranbarth i ranbarth ac o sefydliad i sefydliad, ac ychydig ohonynt sy'n cynnwys defnyddwyr gwasanaethau o'r dechrau'n deg

3.18 I raddau helaeth, mae'r trefniadau i oruchwylio ac i reoli prosiectau unigol yn seiliedig ar y trefniadau a ddefnyddir gan y sefydliad sy'n lletya'r prosiect. Fodd bynnag, nid oes cynlluniau manwl ar gael i ategu pob prosiect ac ni ddefnyddir dull cyson i reoli risgiau prosiectau. Mae gan rai prosiectau gofrestri risg lleol sy'n bwydo i mewn i gofrestri risg sefydliadau neu feysydd, ond nid oes gan lawer ohonynt systemau i bennu, i reoli ac i uwchgyfeirio risgiau.


3.19 Yn aml, bydd arweinwyr prosiectau'n ysgwyddo cyfrifoldebau ehangach tu hwnt i'r prosiect ei hun. Gall hyn greu problemau o ran y capasiti i gynllunio ac i reoli prosiectau ac i adrodd arnynt yn ôl y gofyn, ac mae llawer o arweinwyr prosiectau'n ei chael yn anodd bodloni'r dyddiadau adrodd a bennir gan Lywodraeth Cymru.

3.20 Ychydig o’r prosiectau sydd wedi cynnwys defnyddwyr gwasanaethau o’r dechrau’n deg, a hynny oherwydd bod cyn lleied o amser ar gael i’r partneriaid rhanbarthol ddatblygu eu prosiectau arfaethedig. Fodd bynnag, mae partneriaid rhanbarthol yn ceisio ymgysylltu drwy drafod â’r cynrychiolwyr defnyddwyr a gofalwyr sy’n aelodau o’r bwrdd partneriaeth. Yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, mae’n ofynnol i bob bwrdd partneriaeth sefydlu panel dinasyddion. Mae trefniadau’r paneli’n amrywio o ranbarth i ranbarth. Mewn rhai achosion, mae’r byrddau partneriaeth yn defnyddio’r trefniadau ymgysylltu sydd eisoes ar waith gan y cyrff cyhoeddus i ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaethau a dinasyddion. Ar hyn o bryd, nid oes llawer o dystiolaeth bod y partneriaid rhanbarthol yn defnyddio’r trefniadau hyn i gynnwys dinasyddion yn y gwaith o gynllunio prosiectau a gefnogir gan y gronfa.

3.21 Er mai bwriad y gronfa yw helpu i ysgogi prosiectau newydd ac arloesol, nifer gymharol fechan o’r prosiectau sydd wedi cynnwys cynlluniau ymadael i brif-ffrydio’r prosiect os yw’n llwyddiannus neu i ddod â’r prosiect i ben os nad yw’n gwireddu’r buddion arfaethedig. Yn eu hymatebion i’n harolwg, dywedodd 40% o’r arweinwyr prosiectau fod gofyn iddynt gynnwys strategaeth ymadael yn eu cynlluniau prosiect. Yn sgil ein hadborth cynnar i Lywodraeth Cymru, mae bellach yn ofynnol llunio strategaeth ymadael ar gyfer pob prosiect sy’n cael ei ariannu gan y gronfa yn 2019-20 (paragraffau 4.12 i 4.17).

# Rhan 4

Er bod enghreifftiau cadarnhaol, nid yw effaith gyffredinol y gronfa o ran gwella canlyniadau defnyddwyr gwasanaethau yn glir o hyd, ac ni cheir llawer o dystiolaeth bod prosiectau llwyddiannus yn cael eu prif-ffrydio hyd yma



## Mae'r byrddau partneriaeth yn pennu amryw o astudiaethau achos cadarnhaol, ond nid yw trefniadau monitro canolog Llywodraeth Cymru yn gosod sylfaen i asesu effaith gyffredinol y gronfa hyd yma

4.1 Ers sefydlu'r gronfa, mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn i'r byrddau partneriaeth gyflwyno data ariannol a data perfformiad ynghylch eu defnydd o arian refeniw ac arian cyfalaf y gronfa bob chwarter. Bob blwyddyn, mae'r canllawiau'n amlinellu'r gofynion adrodd. Yn 2016-17, dechreuodd canllawiau Llywodraeth Cymru nodi'r dyddiadau cau ar gyfer cyflwyno adroddiadau hefyd.

4.2 Fodd bynnag, mae'r dulliau adrodd ar gyfer arian refeniw ac arian cyfalaf yn wahanol. Y prif reswm dros y gwahaniaeth hwn yw bod elfen gyfalaf y gronfa'n cael ei hadnabod fel grant ac, o'r herwydd, mae'r gofynion adrodd yn wahanol. Er bod y byrddau partneriaeth yn cydnabod hyn, mae'r dulliau gwahanol yn achosi rhwystredigaeth a byddent yn croesawu proses symlach.

4.3 Ceir trefniadau adrodd ar wahân ar gyfer ffrydiau arian refeniw'r Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig a System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru hefyd. Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am graffu ac adrodd ar y cynlluniau hyn, a hynny fel rhan o'r gwaith ehangach i oruchwylio'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig ac i gyflwyno'r system wybodaeth ledled Cymru.

4.4 Mae Llywodraeth Cymru wedi amlinellu'r gofynion adrodd ar gyfer y byrddau partneriaeth, gan roi pwyslais ar fesur llwyddiant prosiectau ar sail canlyniadau yn hytrach nag allbynnau sy'n canolbwyntio ar swm y gweithgarwch. Pennodd Llywodraeth Cymru fod oedi wrth drosglwyddo gofal yn fesur canlyniad allweddol pan sefydlwyd y gronfa'n wreiddiol. Nid yw'n ofynnol i'r byrddau partneriaeth adrodd ar y sefyllfa o ran oedi wrth drosglwyddo gofal. Yn hytrach, mae Llywodraeth Cymru'n monitro'r sefyllfa ranbarthol drwy systemau canolog. Oherwydd y ffocws cynyddol ar wasanaethau ataliol ac osgoi derbyniadau, a'r newidiadau i'r grwpiau poblogaeth targed, dywedodd pob bwrdd partneriaeth nad yw oedi wrth drosglwyddo gofal yn adlewyrchu cwmpas llwyr y gronfa erbyn hyn.

4.5 Nid yw Llywodraeth Cymru wedi pennu unrhyw ddisgwyliadau penodol o ran sut y dylai'r byrddau partneriaeth fesur a chofnodi gwybodaeth am ganlyniadau. Mae pob bwrdd partneriaeth wedi llunio ei brosesau ei hun. Mae hyn wedi rhoi hyblygrwydd i'r byrddau partneriaeth ddefnyddio'r dulliau sydd fwyaf priodol yn eu tyb nhw i fesur perfformiad. Ond o'r herwydd, mae Llywodraeth Cymru wedi cael gwybodaeth wahanol iawn am brosiectau tebyg, gan beri iddi fod yn anodd coladu neu gymharu'r un wybodaeth am ganlyniadau ar lefel genedlaethol. O fewn eu gwahanol ddulliau o reoli perfformiad, dywedodd pob partner rhanbarthol hefyd ei bod yn anodd mesur canlyniadau'n llwyddiannus.

4.6 Yn 2017-18, ar ôl ymgynghori â'r byrddau partneriaeth, dechreuodd Llywodraeth Cymru gynnwys templed adrodd yn y canllawiau. Er gwaethaf y pwyslais ar adrodd am ganlyniadau, mae'r templed yn canolbwyntio'n bennaf ar y cymorth a ddarparwyd drwy'r gronfa, yn ogystal â'r gwariant. Anogwyd y partneriaid rhanbarthol i barhau i gasglu unrhyw wybodaeth ychwanegol a allai fod yn fuddiol yn eu tyb nhw i ddangos perfformiad prosiectau. Mae hyn yn ychwanegol at y gofyniad i lenwi'r templed, ac mae'r byrddau partneriaeth yn aml yn cyflwyno'r wybodaeth ychwanegol hon gyda'u ffurflenni chwarterol. Fodd bynnag, oherwydd problemau capasiti'r tîm canolog (paragraffau 3.8 i 3.12), nid yw Llywodraeth Cymru'n cael cyfle i adolygu pob prosiect mewn manylder.

4.7 Mae llawer o'r partneriaid rhanbarthol wedi bod yn casglu profiadau defnyddwyr drwy astudiaethau achos oherwydd mai hon yw'r ffordd orau yn eu tyb nhw o ddangos y canlyniadau a gyflawnir ac effaith y gronfa ar fywydau pobl. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru wedi annog y byrddau partneriaeth i gynnwys nifer gymesur o astudiaethau achos yn eu ffurflenni chwarterol, gan ganolbwyntio ar arferion gorau, gan fod ei chapasiti i ddadansoddi'r wybodaeth yn gyfyngedig.

4.8 Mae llawer o'r prosiectau'n canolbwyntio ar atal ac ymyrraeth gynnar. Fodd bynnag, nid yw'r partneriaid rhanbarthol yn gallu adrodd am ostyngiadau yn y defnydd o wasanaethau mewn rhannau eraill o'r system nac arbedion, a hynny oherwydd bod y galw ar y gwasanaethau craidd presennol gan boblogaeth gynyddol ag anghenion mwy cymhleth yn disodli'r galw y mae'r prosiectau a ariennir yn ei reoli erbyn hyn.

4.9 Mae pob bwrdd partneriaeth yn cydnabod bod mesur effaith yn faes y gallent ei wella ac maent yn mynd ati i gofnodi canlyniadau'n well. Er enghraifft, mae rhanbarth y Gorllewin yn treialu defnydd o'r Llwybr Integredig ar gyfer Pobl Hŷn[16]. Fel rhan o'r gwaith hwn, mae'r partneriaid rhanbarthol yn ceisio cysylltu'r canlyniadau lleol a gyflawnir ganddynt drwy'r prosiectau a ariennir gan y gronfa â'r canlyniadau cenedlaethol a bennir fel rhan o'r llwybr, ond mae'r rhain yn dal i fod yn ddyddiau cynnar. Yn ei chanllawiau diweddaraf, mae Llywodraeth Cymru yn annog y byrddau partneriaeth i ddefnyddio Atebolrwydd yn Seiliedig ar Ganlyniadau[17] i fesur canlyniadau, ac mae tri bwrdd partneriaeth eisoes yn eu defnyddio, rhai ohonynt yn fwy llwyddiannus na'i gilydd.

4.10 Serch hynny, mae'r materion hyn yn golygu nad yw Llywodraeth Cymru, hyd yma, wedi gallu darparu darlun cenedlaethol o'r effaith y mae'r gronfa wedi'i chael. Yn y cyfamser, mae'r bwrdd prosiect wedi cael sicrwydd lefel uchel o'r wybodaeth a ddarparwyd gan y byrddau partneriaeth am wariant a gweithgareddau ac mae wedi defnyddio'r wybodaeth honno i osod sylfaen ar gyfer ymweliadau Aelodau Cynulliad â gwahanol brosiectau. Mae Llywodraeth Cymru'n bwriadu cyhoeddi adroddiad blynyddol erbyn mis Medi 2019 am y ffordd y defnyddiwyd y gronfa yn 2018-19. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn bwriadu comisiynu gwaith gwerthuso ehangach ar ôl iddi benderfynu gohirio gwerthusiad a gyhoeddwyd yn flaenorol oherwydd ein cynlluniau i ymgymryd â'n gwaith ni.


4.11 Mae'r angen i ddarparu'r un faint o wybodaeth bob chwarter wedi peri rhwystredigaeth i'r byrddau partneriaeth hefyd, yn enwedig gan fod lefel y gweithgarwch yn is ar y cyfan yn ystod chwarter cyntaf y flwyddyn ariannol. Mae Llywodraeth Cymru bellach wedi cydnabod hyn ac mae gofynion adrodd chwarter un a chwarter tri yn llai beichus yn 2019-20.

16 Llwybr chwe cham a luniwyd gan Lywodraeth Cymru i bennu ac i ddeall faint o ofal sydd ei angen ar bobl hŷn yw'r Llwybr Integredig ar gyfer Pobl Hŷn. Cafodd ei ddiweddaru yn y Gorllewin i gynnwys saith cam.

17 Dull o fesur perfformiad yw Atebolrwydd yn Seiliedig ar Ganlyniadau. Mae'n mesur llwyddiant gwasanaeth drwy ganolbwyntio ar sut y mae sefyllfa defnyddwyr Dull o fesur perfformiad yw Atebolrwydd yn Seiliedig ar Ganlyniadau. Mae'n mesur llwyddiant gwasanaeth drwy ganolbwyntio ar sut y mae sefyllfa defnyddwyr gwasanaethau wedi gwella yn hytrach na chanolbwyntio yn y ffordd draddodiadol ar weithgarwch.

## Ni cheir llawer o dystiolaeth bod prosiectau llwyddiannus wedi'u prif-ffrydio a'u hariannu fel rhan o wasanaethau craidd y cyrff cyhoeddus hyd yma, ond mae Llywodraeth Cymru wedi ailbwysleisio ei disgwyliadau

4.12 Ers sefydlu'r gronfa yn 2014, mae Llywodraeth Cymru wedi nodi'n glir ei bod yn disgwyl i brosiectau sy'n dangos eu bod yn cael effaith gael eu prif-ffrydio drwy'r cyllidebau craidd. Yn ymarferol, mae llawer o'r prosiectau a gefnogwyd gan y gronfa wedi treiglo o flwyddyn i flwyddyn (paragraff 2.15). Rhestrir rhai enghreifftiau isod:




Swyddogion cymorth llesiant cymunedol y Gogledd sy'n cefnogi llesiant dinasyddion drwy eu cyfeirio at wybodaeth a chyngor yn y trydydd sector.

Gwasanaeth gofal a thrwsio'r Gorllewin sy'n darparu asesiadau ac atgyfeiriadau ar gyfer y Grant Cymorth Atgyweiriadau Brys. Drwy ddarparu pecynnau gofal a gwneud atgyweiriadau brys i wella safon tai a ffyrdd mynediad, mae'n sicrhau bod modd i'r henoed a phobl sy'n agored i niwed aros yn eu cartrefi, gan sicrhau eu bod yn iach, yn ddiogel ac yn parhau i fod yn annibynnol.

Tîm rhyddhau achosion cymhleth Cwm Taf sy'n darparu un man cyswllt ar gyfer staff iechyd a gofal cymdeithasol i hwyluso myne-diad cyflym at gymorth rhyddhau.

Gwasanaeth man cyswllt cyntaf ac un man cyswllt Caerdydd a'r Fro sy'n darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth i ystod ehangach o wasanaethau i leihau derbyniadau diangen, i hwyluso mynediad at wasanaethau, ac i gyflymu'r broses o ryddhau pobl o'r ysbyty.

4.13 Yng nghyd-destun pwysau ariannol ehangach, mae'r byrddau partneriaeth wedi'i chael yn anodd darbwyllo'r sefydliadau y maent yn eu cynrychioli i fuddsoddi yn y prosiectau hyn a phrosiectau eraill drwy'r ffrydiau ariannu craidd. Er ei bod yn ofynnol gwerthuso prosiectau, ychydig iawn o'r prosiectau, gan gynnwys y rheini sydd ar waith ers cyflwyno'r gronfa, a gafodd eu gwerthuso'n ffurfiol.

4.14 Bwriedir i'r byrddau partneriaeth ddefnyddio gwybodaeth sy'n deillio o werthusiadau i asesu gwerth prif-ffrydio'r gwasanaethau a gefnogir gan y gronfa. Mae'r wybodaeth a geir yn adroddiadau blynyddol y byrddau partneriaeth ac mewn astudiaethau achos yn awgrymu bod llawer o'r prosiectau hyn, fodd bynnag, yn gwneud gwahaniaeth gweladwy (Arddangosyn 10). Ceir mwy o wybodaeth yn adroddiadau blynyddol y byrddau partneriaeth, ac mae llawer ohonynt, ond nid pob un, wedi'u cyhoeddi ar eu gwefannau.

Arddangosyn 10: enghreifftiau o effeithiau cadarnhaol prosiectau a ariannwyd gan y Gronfa Gofal Integredig



**Uned Ailalluogi 'Y Bae'**

(Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Caerdydd a'r Fro)

Drwy fagu hyder a gwella cryfder corfforol a meddyliol pob unigolyn, gall yr Uned ddangos gostyngiad sylweddol yng ngofynion cymorth parhaus ar ôl i'r defnyddiwr gwasanaeth ddychwelyd adref. Drwy sicrhau bod y gofal a ddarperir i'r unigolyn yn briodol yn seiliedig ar angen, llwyddwyd i arbed tua £500,000 y flwyddyn – **Adroddiad Blynyddol Partneriaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol Integredig Caerdydd a'r Fro 2017-18**



**Anhwylderau Bwyta Plant a Phobl Ifanc**

(Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gwent)

Gall y tîm cymunedol anhwylderau bwyta ddarparu asesiad rheolaidd o blentyn neu berson ifanc ar ran y Gwasanaeth Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS) Mae hyn yn arwain at well canlyniadau i blant a phobl ifanc a llai o dderbyniadau i welyau Haen 4 – **Adroddiad Blynyddol Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gwent 2017-18**

Ffynhonnell: Adolygiad Swyddfa Archwilio Cymru o adroddiadau blynyddol y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol.

4.15 Yn eu hymatebion i'n harolygon, dywedodd 91% o'r arweinwyr prosiectau eu bod yn cytuno neu'n cytuno'n gryf fod y prosiectau yr oeddent yn rhan ohonynt yn gwneud gwahaniaeth i ddefnyddwyr gwasanaethau. Roedd 87% o aelodau'r byrddau partneriaeth hefyd yn cytuno neu'n cytuno'n gryf fod y prosiectau a ariennir yn eu rhanbarth yn gwneud gwahaniaeth i ddefnyddwyr gwasanaethau. Serch hynny, dim ond 60% o'r arweinwyr prosiectau a ddywedodd eu bod wedi gallu dangos effaith y prosiect, a dywedodd 75% ohonynt fod heriau'n codi o ran prif-ffrydio'r prosiectau (Arddangosyn 11).

Arddangosyn 11: yr heriau a bennwyd o ran prif-ffrydio prosiectau drwy ein harolwg ymhlith arweinwyr prosiectau





Ffynhonnell: Arolwg Swyddfa Archwilio Cymru ymhlith arweinwyr prosiectau.

4.16 Fodd bynnag, mae rhai prosiectau wedi ennill eu plwyf i'r fath raddau nes eu bod, i bob pwrpas, yn wasanaethau craidd erbyn hyn. Pe baent yn dod i ben, byddai'n cael effaith andwyol ar y ddarpariaeth ehangach. Yn ei chanllawiau diweddaraf, mae Llywodraeth Cymru yn pwysleisio na ddylid defnyddio'r gronfa i gefnogi prosiectau sydd wedi datblygu i fod yn wasanaethau craidd, ac y dylid cael hyd i drefniadau eraill i'w hariannu. Mae Llywodraeth Cymru'n cydnabod yr heriau y mae'r byrddau partneriaeth yn eu hwynebu o ran prif-ffrydio prosiectau, ond nid yw wedi darparu unrhyw gymorth na chanllawiau manwl i'w helpu i fynd i'r afael â'r mater o'r blaen. Mae canllawiau 2019-20 bellach yn nodi'n glir bod disgwyl i'r cynlluniau buddsoddi refeniw gynnwys strategaethau ymadael ar gyfer pob prosiect (paragraff 3.21). Fodd bynnag, ni cheir unrhyw enghreifftiau ymarferol o hyd i ddangos sut y gall partneriaid rhanbarthol fynd ati i brif-ffrydio prosiectau sy'n dangos eu bod yn cael effaith. Gall fod rhaid i bartneriaid rhanbarthol hefyd wneud rhai penderfyniadau anodd i roi'r gorau i fuddsoddi mewn rhai gwasanaethau.

4.17 Unwaith y flwyddyn, mae Llywodraeth Cymru'n cynnal digwyddiad i ddod ag aelodau'r byrddau partneriaeth a'r rheini sy'n ymwneud yn uniongyrchol â'r prosiectau a ariennir ynghyd. Bwriedir i'r digwyddiad hwn hwyluso cyfleoedd i ddysgu ar y cyd. Mae'r rheini sydd wedi bod i'r digwyddiad yn dweud ei fod yn ddefnyddiol o ran dod i wybod pa brosiectau sydd ar waith ledled Cymru a thynnu sylw at brosiectau sy'n gweithio'n dda. Roedd aelodau'r byrddau partneriaeth yn teimlo y byddai'r digwyddiad yn fwy defnyddiol pe bai cyfleoedd ehangach i ddysgu o brofiadau eraill, yn enwedig o ran goresgyn heriau. Gallai'r digwyddiad blynyddol hefyd fod yn ffordd ddefnyddiol o ddysgu ar y cyd am brif-ffrydio.

# Atodiadau



# Atodiad 1

## Dulliau archwilio

### Arddangosyn A1: y dulliau archwilio a ddefnyddiwyd



**Adolygu dogfennau**

Rydym wedi adolygu dogfennau canolog a rhanbarthol, gan gynnwys:

- Canllawiau Llywodraeth Cymru
- Cynlluniau strategol, gan gynnwys: cynlluniau corfforaethol yr awdurdodau lleol, cynlluniau tymor canolig integredig y byrddau iechyd, cynlluniau llesiant y byrddau gwasanaethau cyhoeddus
- Cynlluniau prosiectau
- Ffurflenni monitro cyllid a pherfformiad chwarterol y byrddau partneriaeth
- Cofnodion y byrddau partneriaeth a'u his-grwpiau[18]

Rydym hefyd wedi adolygu adroddiadau perthnasol am integreiddio iechyd a gofal cymdeithasol gan Audit Scotland a'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol.



**Arolygon**

Cynhaliwyd arolygon ymhlith aelodau'r byrddau partneriaeth ac unigolion a fu'n arwain prosiectau yn ystod 2017-18.

Daeth ymatebion i law gan 71 o'r 156 o'r aelodau a holwyd a chan 65 o'r 243 o'r arweinwyr prosiectau a holwyd.




**Cyfweliadau**

Cynhaliwyd cyfweliadau â'r unigolion a ganlyn:

- Arweinwyr rhanbarthol y Gronfa Gofal Integredig
- Aelodau'r byrddau partneriaeth, gan gynnwys: aelodau etholedig, swyddogion, cynrychiolwyr defnyddwyr gwasanaethau a chynrychiolwyr y trydydd sector
- Arweinwyr prosiectau
- Swyddogion Llywodraeth Cymru



**Gweithdai**

Cynhaliwyd gweithdai gydag aelodau is-grwpiau perthnasol y byrddau partneriaeth ym mhob rhanbarth.

Cynhaliwyd gweithdai hefyd gyda sampl o arweinwyr prosiectau ym mhob rhanbarth.

18 Mae pob bwrdd partneriaeth wedi dirprwyo'r cyfrifoldeb dros elfennau o'r gronfa i un neu ragor o is-grwpiau.

**Dadansoddi data**


Bu inni ddadansoddi data ariannol a data perfformiad prosiectau ar gyfer y cyfnod 2014-2019.

**Arsylwi ar gyfarfodydd**

Bu inni arsylwi ar y trefniadau llywodraethu sydd ar waith drwy arsylwi ar gyfarfodydd bwrdd prosiect Llywodraeth Cymru. Bu inni hefyd arsylwi ar gyfarfodydd pob un o'r byrddau partneriaeth a'r is-grwpiau perthnasol sy'n gyfrifol am oruchwylio'r gronfa.

# Atodiad 2

## Map o'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol fel yr oeddent ar 31 Mawrth 2019[19]





19 Ers i'r newidiadau i ffiniau Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg ddod i rym ar 1 Ebrill 2019, mae'r bwrdd a elwir yn Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Cwm Taf Morgannwg erbyn hyn yn cynnwys Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr. Ailsefydlwyd y bartneriaeth sy'n weddill rhwng Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe, Cyngor Dinas Abertawe a Chyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot o dan yr enw Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Morgannwg.

# Atodiad 3

## Dosbarthiad y gronfa rhwng 2014 a 2019

### Arddangosyn A2: dosbarthiad yr arian refeniw fesul rhanbarth a maes, Ebrill 2014 – Mawrth 2019




Nodyn:


1. Rhwng mis Ebrill 2014 a mis Mawrth 2016, ystyriwyd bod Gorllewin Cymru a Phowys yn un rhanbarth ac fe wnaed un dyraniad ar gyfer Canolbarth a Gorllewin Cymru.

Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o ganllawiau a llythyrau dyrannu Llywodraeth Cymru.

# Atodiad 4

## Dadansoddiad o nifer a maint y prosiectau rhwng 2014 a 2019

### Arddangosyn A3: nifer y prosiectau refeniw fesul rhanbarth, Ebrill 2014 – Mawrth 2019 (ac eithrio 2015-16)[1]





Nodiadau:

1. Cafodd prosiectau eu dwyn ymlaen yn 2015-16 ac rydym wedi eu hepgor o'r herwydd.
2. Rhwng 2014 a 2016, ystyriwyd bod Gorllewin Cymru a Phowys yn un rhanbarth ac fe wnaed un dyraniad ar gyfer y Canolbarth a'r Gorllewin. Rydym wedi hepgor nifer y prosiectau yn y rhanbarth hwn ar gyfer y cyfnod 2014-2016 o'r gymhariaeth.

Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o ffurflenni monitro'r byrddau partneriaeth a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru.

## Arddangosyn A4: maint y prosiectau fesul rhanbarth, Ebrill 2014 – Mawrth 2019 (ac eithrio 2015-16)[1]




Nodiadau:

1. Cafodd prosiectau eu dwyn ymlaen yn 2015-16 ac rydym wedi eu hepgor o'r herwydd.
2. Rhwng 2014 a 2016, ystyriwyd bod Gorllewin Cymru a Phowys yn un rhanbarth ac fe wnaed un dyraniad ar gyfer y Canolbarth a'r Gorllewin. Rydym wedi hepgor nifer y prosiectau yn y rhanbarth hwn ar gyfer y cyfnod 2014-2016 o'r gymhariaeth.

Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o'r ffurflenni monitro a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru.

# Atodiad 5

## Prif ganfyddiadau ein harolygon ymhlith aelodau'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol ac arweinwyr prosiectau

Dangosodd ein harolwg ymhlith aelodau'r byrddau partneriaeth[20] yr hyn a ganlyn:

Roedd 59 allan o 70 (84%) yn cytuno bod y sefydliadau sy'n bartneriaid yn dangos ymrwymiad i waith partneriaeth.

Roedd 38 allan o 68 (56%) yn cytuno bod cysylltiadau priodol â grwpiau a fforymau rhanbarthol eraill, fel y byrddau gwasanaethau cyhoeddus, i sicrhau nad oes unrhyw orgyffwrdd na bylchau o ran ymateb i ofynion deddfwriaethol.

Roedd 33 allan o 62 (53%) yn cytuno ei bod yn ddefnyddiol clustnodi arian o'r gyllideb ar gyfer y mentrau cenedlaethol.

Roedd 21 allan o 61 (34%) yn cytuno bod y templedi a ddarperir gan Lywodraeth Cymru ar gyfer yr adroddiadau chwarterol yn casglu'r wybodaeth gywir.

Roedd 37 allan o 59 (63%) yn cytuno bod cyfathrebu defnyddiol yn mynd rhagddo rhwng y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol a Llywodraeth Cymru i ddeall unrhyw newidiadau i'r gronfa.

Roedd 57 allan o 71 (80%) yn cytuno bod y cynigion a gyflwynir gerbron y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol i'w cymeradwyo o ansawdd da ar y cyfan.

Roedd 39 allan o 69 (57%) yn cytuno bod y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn neilltuo digon o amser i graffu'n effeithiol ar y modd y mae'r prosiectau a gefnogir gan y gronfa'n cael eu rhoi ar waith.

Roedd 49 allan o 68 (72%) yn cytuno bod proses glir ar gael i fonitro ac i reoli tanwariant a gorwariant prosiectau o fewn strwythur y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol.

Roedd 47 allan o 68 (69%) yn cytuno bod y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol a'i is-grŵp yn canolbwyntio ar ganlyniadau pan fyddant yn craffu ar brosiectau.

Roedd 45 allan o 70 (64%) yn cytuno bod y gronfa'n ariannu'r prosiectau cywir.

Roedd 60 allan o 69 (87%) yn cytuno bod y prosiectau a ariennir yn gwneud gwahaniaeth i ddefnyddwyr gwasanaethau.

20 Ni wnaeth pob aelod a ymatebodd ateb pob cwestiwn.

Dangosodd ein harolwg ymhlith arweinwyr prosiectau yr hyn a ganlyn:

Dywedodd 46 allan o 65 (71%) fod eu prosiect(au) wedi cael arian mewn blynyddoedd blaenorol.

Dywedodd 31 allan o 65 (48%) fod eu prosiect(au) wedi cael arian o ffynhonnell arall, yn ychwanegol at y Gronfa Gofal Integredig.

Dywedodd 60 allan o 65 (92%) fod cysylltiad clir rhwng eu prosiect(au) a blaenoriaethau strategol cenedlaethol, gan gynnwys Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru).

Dywedodd 38 allan o 65 (58%) fod fframwaith rheoli risg yn ei le ar gyfer eu prosiect(au).

Dywedodd 58 allan o 65 (89%) eu bod wedi cael cyfarwyddyd priodol gan reolwyr i'w cynorthwyo i roi'r prosiect(au) ar waith.

Dywedodd 27 allan o 65 (40%) fod gofyn iddynt gynnwys strategaeth ymadael fel rhan o'u cynlluniau prosiect.

Dywedodd 51 allan o 65 (78%) fod un pwynt atebolrwydd ar gael o ran rhoi'r prosiect(au) ar waith.

Dywedodd 21 allan o 65 (32%) fod eu prosiect(au) wedi dechrau'n brydlon.

Dywedodd 26 allan o 65 (40%) fod trefniadau ar waith i fesur manteision ariannol y prosiect(au).

Dywedodd 39 allan o 65 (60%) eu bod wedi gallu dangos effaith y prosiect(au).

Dywedodd 43 allan o 65 (66%) fod y gronfa'n helpu i ddarparu gwasanaethau gwell a mwy cynaliadwy yn eu rhanbarth.

Dywedodd 49 allan o 65 (75%) fod heriau'n codi o ran prif-ffrydio'r prosiect(au).

Dywedodd 59 allan o 65 (91%) fod y prosiect(au) yn gwneud gwahaniaeth i ddefnyddwyr gwasanaethau.

# Atodiad 6

## Y cynnydd a wnaed o ran argymhelliad blaenorol

Yn adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2015, **Helpu Pobl Hŷn i Fyw'n Annibynnol: A yw cynghorau'n gwneud digon?**, gwnaethom yr argymhelliad a ganlyn i'r awdurdodau lleol, y byrddau iechyd, partneriaid y trydydd sector a Llywodraeth Cymru. Rydym wedi asesu'r cynnydd a wnaed o ran yr argymhelliad (Arddangosyn A5).

Arddangosyn A5: y cynnydd a wnaed o ran argymhelliad blaenorol sy'n ymwneud â'r gronfa

| Argymhelliad – gwella'r rheolaeth ar y Gronfa Gofal Canolraddol [bryd hynny] ac effaith y gronfa honno drwy: | Ein hasesiad o'r cynnydd a wnaed |
|---|---|
| Pennu llinell sylfaen ar gyfer perfformiad ar ddechrau prosiectau fel bo modd barnu ynghylch effaith y prosiectau hynny dros amser | Nid oes un dull ar waith i reoli perfformiad prosiectau. Mae'n amrywio o ranbarth i ranbarth ac, weithiau, o fewn yr un rhanbarth (paragraffau 3.18 i 3.20). Ceir enghreifftiau o brosiectau sy'n pennu'r perfformiad dangosol wrth gynllunio'r prosiect, ond nid yw hyn yn digwydd ym mhob achos. |
| Cytuno ar fformat a chwmpas adroddiadau monitro fel bo modd cynnal gwerthusiadau cymaradwy o brosiectau a ariennir yn erbyn meini prawf y gronfa, er mwyn barnu pa brosiect sy'n cael yr effaith fwyaf cadarnhaol a faint o gynlluniau sydd wedi cael eu prif-ffrydio i dderbyn cyllid craidd. | Fel y nodir uchod, nid oes un dull ar waith i reoli prosiectau ac ni ellir cymharu prosiectau tebyg ar yr un sail (paragraff 4.5). Ceir tystiolaeth bod rhai rhanbarthau'n dechrau defnyddio dull a fyddai'n darparu gwybodaeth y gellir ei chymharu (er enghraifft, fframwaith canlyniadau rhanbarthol y Gorllewin), ond mae'r rhain yn dal i fod yn ddyddiau cynnar ac nid oes unrhyw ddata ar gael ar hyn o bryd i farnu pa brosiectau sy'n cael yr effaith fwyaf.<br><br>Yn ogystal, mae'r rhanbarthau'n ei chael yn anodd casglu effeithiau cadarnhaol a darparu tystiolaeth o arbedion oherwydd natur ataliol y prosiectau, ac ni cheir llawer o dystiolaeth bod prosiectau wedi'u prif-ffyrdio i dderbyn cyllid craidd (paragraffau 4.12 i 4.17). |
| Gwella'r ymgysylltu â'r ystod lawn o bartneriaid er mwyn sicrhau bod amrywiaeth mor eang ag sy'n bosibl o bartneriaid yn cael eu hannog i gymryd rhan mewn mentrau a rhaglenni yn y dyfodol. | Mae'r graddau y mae partneriaid yn ymgysylltu â'r gronfa'n amrywio o ranbarth i ranbarth, ac mae partneriaid y trydydd sector wedi mynegi rhai pryderon parhaus (paragraff 3.16). Fodd bynnag, mae'r camau i gyflwyno Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol ers sefydlu'r gronfa wedi dod ag ystod ehangach nag o'r blaen o bartneriaid ynghyd ar sail ranbarthol i gyfrannu at y rhaglen ac i gymryd rhan ynddi (paragraffau 1.1 i 1.7). |

Wales Audit Office

24 Cathedral Road

Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500

Fax: 029 2032 0600

Textphone: 029 2032 0660

We welcome telephone calls in Welsh and English.

E-mail: info@audit.wales

Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru

24 Heol y Gadeirlan

Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn Testun: 029 2032 0660

Rydym yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru